# ECO'R WYDDFA


**RHIF 312**
**MEHEFIN 2004**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*


**SWYDDOGION A GOHEBWŶR**

**Tîm Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD BWNDELU**
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**DEINIOLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, MEHEFIN 21**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, GORFFENNAF 1**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Ffôn |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 21 Mehefin | 1 Gorffennaf | Bethel | Geraint Elis | (01248) 670726 |

## Gŵyl Ffidil yr Wyddfa

Ar Fehefin 19eg eleni, dylai pawb sydd â diddordeb yn y ffidil a'i cherddoriaeth yng Nghymru ymweld â Nant Peris. Yno bydd y ffidlwyr lleol, Cass Meurig ac Idris Morris Jones, o'r grŵp gwerin 'Pigyn Clust', a'r gwneuthurwr ffidil Nial Cain o Ddinorwig, yn cynnal GŴYL FFIDIL YR WYDDFA.

Mae'r Clwb Ffidil yng Nghwm y Glo wedi blodeuo dros y flwyddyn ddiwethaf, a thyfodd yr ŵyl o'r brwdfrydedd a grewyd yn y clwb. Bydd digwyddiadau i ddiwallu pob diddordeb ar bob lefel yn y ffidil, ac fe ddaw a cherddoriaeth ffidil Gymreig i glustiau cynulleidfa ehangach.

Cynhelir gweithdai yn y bore, ynghyd â sesiynau agored yn Nhafarn y Ty'n Llan, Nant Peris, yn y prynhawn a nos. Uchafbwynt yr ŵyl fydd cyngerdd yn Eglwys Sant Peris gyda'r Brodyr Kilbride, perfformwyr cerddoriaeth ffidil Gymreig o safon rhyngwladol, a deuawd ffidil ryfeddol o Sir Benfro, y Chwiorydd Cooper. Mae'n bosib y daw perfformwyr eraill, yn ogystal ag ymddangosiad gan y trefnwyr.

Ceir Dosbarth Meistr arbennig gan y Brodyr Kilbride ar gyfer ffidlwyr o safon uwch, a chewch gyfle i ddod ag unrhyw ffidil glwyfus am ymweliad â'r doctor ffidil, Nial Cain – cewch ddeiagnosis ddiboen.

Fore Sul ewch am dro bach hamddenol i ben yr Wyddfa dan arweiniad arbenigwr mynydda lleol. Pa ŵyl arall fedar gynnig golygfeydd ac awyrgylch fwy dramatig?

**Am wybodaeth pellach ewch i ymweld â safle we'r Tyn Llan:**
**<www.vaynolarms.co.uk>**
**neu ffoniwch (01286) 870286;**
**neu cysylltwch â:**
**nialcain@tinyworld.co.uk**
**neu idris1@cymru1.net**

## *Penrhos, Caeathro*

***Prynhawn Sadwrn, 8 Mai***
***Caws a Gwin, Stondinnau, Raffl, Ocsiwn***

Llwyddiant mawr oedd yr achlysur yma yn Penrhos Caeathro, 8 Mai, 2-5 o'r gloch. Er y glaw roedd y croeso yn gynnes iawn a'r paratoi yn ardderchog. Bydd llawer yn ôl eto yn Penrhos yn sicr yn dathlu rhyw achlysur arbennig gyda phryd o fwyd blasus. Diolch yn fawr i chi i gyd yno am fod mor barod i helpu cyn, ac ar y diwrnod.

Diolch hefyd i bawb ddaru fy helpu i yn bersonol, mewn llawer ffordd. I'r rhai ddaru wneud a chasglu'r nwyddau ar gyfer y stondinau; diolch i bob un ddaeth draw i wario a chefnogi ar y diwrnod ac i'r rhai fu mor barod i roi at y raffl a'r ocsiwn, a'r llawer un ddaru gyfrannu'n ariannol yn sylweddol iawn at Gronfa Ymchwil yr afiechyd anghyffredin yma sef Neuro-acanthoscytosis.

Gwnaed elw o £1,200, gyda ychydig addewidion i ddod i law eto.

Roedd Gordon a Gill wedi gwerthfawrogi cael bod hefo chi, ac yn diolch o waelod calon am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth.

Diolch i chi i gyd,

ANNE,
Perthi,
Bryngwyn,
Llanrug

*Elusen: Telir i Gronfa Drwyddedig (John Grooms-Chac.Account)*

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

## Côr Meibion Dyffryn Peris

Fe garwn, drwy gyfrwng yr Eco, ddiolch o galon am gael y fraint o arwain y côr hwn am bron i chwe mlynedd. Rwyf wedi mwynhau y cyd ddysgu, y perfformio ar hyd a lled Cymru fach a thramor ynghyd â'r cyd gymdeithasu ddaeth i'n rhan yn ystod y cyfnod hwn. Bu i ni hefyd brofi cyfnodau dwys a thrist yng nghwmni'n gilydd. Ar amseroedd felly, gwelwyd beth oedd gwir ystyr cymdeithas glos o ffrindiau triw.

Cefais gefnogaeth glodwiw gan yr hogiau eu hunain ond rhaid i mi gyfeirio at deyrngarwch Hefina Jones fel cyfeilydd. Mae hi wedi bod yn cyfeilio i'r côr ers y cychwyn cyntaf. Diolch iddi am ei hymroddiad cydwybodol i minnau. Bu dau gadeirydd wrth y llyw tra bûm i yno – diolch i Gwynfryn Griffith ac Aneuryn Jones ac hefyd i Arwel Jones yr is arweinydd.

Tu ôl i'r cyfan hyn, roedd gennym bwyllgor merched arbennig o weithgar, fu'n trefnu cymaint o weithgraeddau i ofalu am ochr ariannol y côr. Diolch iddynt hwythau – criw sydd bellach, fel yr hogiau, wedi dod yn gyfeillion i mi.


Rhaid cofio nad oes gwir werth i unrhyw gôr os nad oes iddo gynulleidfa. A dyna lle mae holl drigolion bro'r Eco wedi bod yn ffyddlon tu hwnt – boed yn gyngerdd, yn godi arian neu'n gymanfa. Yn ddiffuant iawn, diolch i chwi am gefnogi y côr a minnau dros y blynyddoedd. Rwyf wedi gwerthfawrogi hynny yn fawr. Gwn y bydd y côr yn mynd o nerth i nerth dan arweinyddiaeth Lowri Prys Roberts-Williams, un arall o genod y fro. Rwy'n siŵr y byddwch chwi yn parhau i'w chefnogi hithau.

Diolch o galon i bawb.

MAIR LLOYD HUGHES


**R.M. (DIC) PARRY**
**PEINTIWR AC ADDURNWR**
*PRISIAU RHESYMOL*
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**





**GWYNANT PIERCE**
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 650349**
**(0589) 899901**



**R. L. DAVIES**
Coed Bolyn Mawr, Bethel
JCB *Fastracs* a *trailers* 16 tunnell *diggers* bychain ac *excavators* 360° newydda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu *footings*
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion
**(01248) 671300** neu **(07775) 638620**

Annwyl Olygydd,

Siom o'r mwyaf yw datgan i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa fod fy nghyfnod fel arweinydd Seindorf Arian Llanrug wedi dod i ben, a hynny yn anorfod. O ganlyniad i'r modd y cefais fy nhrin gan rai o aelodau'r band mewn cyfarfod diweddar a'r modd i leiafrif o fewn y band gwestiynu fy ymroddiad, bu'n rhaid i mi wneud y penderfyniad anoddaf i adael, a hynny oherwydd y diffyg parch a'r gefnogaeth a ddangoswyd tuag ataf gan y lleiafrif hwnnw.

Yn ystod y cyfarfod diweddar, cwestiynwyd fy ymrwymiad i'r band, gan fy mod yn ogystal yn arwain Seindorf Porthaethwy ac yn chwarae i'r band hynod lwyddiannus Yorkshire Building Society Brass Band (sef band gorau Ewrop, ers chwech mlynedd yn olynol bellach). O ganlyniad i'r modd mae'r lleiafrif hwn yn rhedeg ac yn rheoli'r band, cwestiynwyd fy ymroddiad a'm gallu i arwain a hyfforddi'r band i lwyddiannau pellach. Hoffwn ddatgan yma nad oes sail i'r honiadau celwyddog hyn ynglŷn â'm ymroddiad, ac yr oeddwn i, fel arweinydd, yn fwy na pharod ac yn eiddgar i hyfforddi'r band ymhellach. A minnau'n derbyn hyfforddiant ddwywaith yr wythnos gan arweinydd gorau'r byd, roedd gennyf innau felly fel arweinydd lleol lawer i gynnig i aelodau'r band.

Heb amheuaeth, rwyf i wedi rhoi cant y cant i'r band dros yr 18 mis diwethaf ac wedi mwynhau'r llwyddiannau lu mae'r band wedi'u profi. Yn wir, yn ystod y cyfnod hwn, mae'r band wedi cystadlu mewn 10 cystadleuaeth, gan ennill y wobr gyntaf ar bump achlysur a'r ail wobr ar dri achlysur! Mae'r llwyddiannau hyn yn cynnwys curo Pencampwriaeth Cymru (adran 2) yn 2003 a 2004, curo Pencampwriaeth Gogledd Cymru (adran 2) yn 2002 a 2003, a churo Pencampwriaeth Cenedlaethol Pontins (adran 2) yn 2003.

Gwelwyd llwyddiant y band ym Mhontins ar y rhaglen boblogaidd *Y Band* a ddarlledwyd ar S4C dros y Nadolig. Ers dechrau fy nghyfnod felly, mae'r band wedi mynd o nerth i nerth o dan fy arweiniad a diolchaf yma o fod wedi cael bod yn rhan o hynny. Yn wir, o ganlyniad i'r holl lwyddiannau, mae'r band wedi cael dyrchafiad i'r adran laf o 2005 ymlaen. Siom o'r mwyaf i mi yn bersonol felly yw fod rhai wedi cwestiynu fy ngallu a'm ymrwymiad i arwain y band i lwyddiannau pellach.

Rwyf hefyd wedi ymgartrefu ym mhentref Llanrug (pa arwydd gwell o ymrwymiad a fynnwch?) felly siom yw gwybod nad wyf bellach yn rhan o'r band lleol oedd yn gyfrwng arbennig i hyrwyddo enw da y pentref. Wedi'r cyfan, prin iawn yw'r bandiau pres y dyddiau hyn sydd yn medru ymfalchio fod ganddynt arweinydd lleol i'w harwain.

Yn olaf, hoffwn ddiolch o waelod calon a dymuno'n dda i'r aelodau hynny o'r band a'r pwyllgor sydd wedi dangos gwir gefnogaeth tuag ataf ar hyd fy nghyfnod gyda'r band, ac yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae arnaf ofn nad wyf yn rhagweld dyfodol disglair i fand Llanrug a phryderaf y bydd rheolaeth y lleiafrif hwnnw yn ennill goruchafiaeth ar draul dawn, brwdfrydedd a dymuniadau gweddill aelodau lleol y band. Yn gywir

GAVIN WYN SAYNOR
Penarth
Ffordd yr Orsaf
Llanrug

---

## Trigolion Clwt-y-Bont, Dinorwig a Gallt-y-Foel

Annwyl Gyfeillion,

Carwn ddiolch o galon i chi am eich cefnogaeth, eich cefnogaeth a'ch hynawsedd yn y gorffennol. Bûm yn cynrychioli Clwt-y-Bont, Gallt-y-Foel a Dinorwig ar Gyngor Gwynedd ers rhai blynyddoedd bellach, ond oherwydd newidiadau yn y ffiniau, nid y fi fydd yn cynrychioli'r ardal wedi'r etholiad ym mis Mehefin.

Felly, unwaith eto, diolch yn fawr i chi oll am eich croeso bob amser.

Yn ddiffuant

PAT LARSEN
Llygad-yr-Haul
Penisarwaun

## RHODDION

**£20:** Er cof am Owie (Owain Wyn Griffith, Castell, Pentir).
**£10:** Wynn Davies, Caer; Gwilym a Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Côr Merched Lleisiau Lliwedd; Di-enw – er cof am Robin, Cae Main; Mrs Inigo Jones, Eilionwy, Llanrug; Huw a Maud Williamd, Deulyn, Bethel; Megan Williams, Paradwys, Gaerwen; Di-enw; Pat Larsen, Llygad-yr-Haul, Penisarwaun.
**£7:** Iolo Llywelyn, Llanrug.
**£6:** J. Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, Bethel; Di-enw.
**£5:** Vera Griffiths, 8 Glanrafon, Llanberis; Gwilym Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, Llanberis; Lis ac Eric Jones, 17 Bryn Trion, Penisarwaun; Mrs Alice Hughes, 3 Bryn Golau, Waunfawr.
**£3:** Euros ac Emily, 2 Rhes Faenol, Deiniolen.


**Wavell Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!


# Briwsion Byd Natur
### Dafydd Guto

*Yn dal ati i fod yn ddim byd – ond...*

Ar Fawrth y 4ydd 'leni roeddwn yn traethu am awr a chwarter am fyd Natur, ie darlith!, a hynny yng Nghlwb yr Eifl, yn Nhrefor, yr hen sir Gaernarfon. Cefais gwestiwn am ddigwyddiad anghyffredin yn y seiat holi ar ddiwedd y cyfarfod pan dd'wedodd Beryl Griffiths: *Yn ystod y gwanwyn '03 mi roedd 'na benabyliaid mewn pwll dŵr ger fy nghartra ac roeddynt yn dal yno pan ddaeth hi'n Nadolig – heb ddatblygu'n lyffaint o gwbwl! Pam fod hynny wedi digwydd d'wedwch chi?*

Daeth g'law asid i'r meddwl. Ond doedd gen i damaid o dystiolaeth 'chwaith. Dim sampl dŵr! Dim byd! Felly awgrymais nad oedd y penabyliaid wedi tyfu'n lyffantod oherwydd rhyw ddiffyg yn y dŵr.

Wedi'r mynd adref bûm yn pendroni cryn dipyn, a phenderfynais ddanfon llythyr, (hefo amlen hunan-gyfeiriedig), i'r Adran Swoleg yn Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, yng Nghaerdydd, gan egluro'r amgylchiadau yn Nhrefor. Derbyniwyd ateb hynod glên oddi wrth Peter Howlett, Curadur Creaduriaid hefo-esgyrn-cefn, a dyma ddyfynnu rhywfaint o'r hyn a sgwennodd yn ei gylch:

Rydw i'n gweithio yn yr Amgueddfa ers un ar bymtheg mlynedd, a gwn am un digwyddiad cyffelyb. Y mae'n ddigwyddiad eitha' prin. Ym myd amffibiaid, *neoteniaeth* yw'r term a ddefnyddir am ddiffyg datblygu'n oedolyn, ac y mae'n weddol gyffredin ymhlith salamanderau a madfallod dŵr. Efallai fod y pwll dŵr y mae Mrs Griffiths yn cyfeirio ato'n ddiffygiol ran maeth.


Ia! maeth!, sef bwydoedd bychain, sy'n bodoli yn nŵr y pwll. A'r g'law asid? Yn yr achos dan sylw, heb ei brofi'n ffaith gredadwy mae gen' i ofn! Ond mi wn i un peth, sef cyn 'leni doeddwn i heb fod yn ymwybodol o'r cyflwr *neoteniaeth*, ond mi rydw i rŵan, diolch i Beryl Griffiths, Trefor, a Peter Howlett, Caerdydd.

Ers blynyddoedd bellach credaf fod byd Natur yn dra rhyfeddol, gan fod iddo haenau o wybodaeth – mae o, wyddoch chi, fel rhyw nionyn di-ddiwedd, – nionyn y medrwch ddal ati i dynnu croen oddi arno, a chanfod haen arall crwynol yn llawn ystyr, yn cuddio oddi tano! Heb gwestiynau, serch hynny, ni cheir flas ar fywyd.

'Be' ydy'r rheina?' holwn yn grwt tair, neu bedair mlwydd oed, a hynny wrth Taid Dros ffordd ym Mhenrhyndeudraeth, (Pendryn).

'Llygad doli,' meddai yntau, gan wyro tuag at y blodau ar fin y llwybr.

'Ond 'does llyg'id gan floda' Taid!' meddwn inna'. Tybed? Tybed yn wir? Mae 'na rai penabyliaid sy'n dal ati i fod yn ddim byd – ond penabyliaid! Y diffyg maeth 'na ydy' o' Maeth.


GWYN JONES
**FFENESTRI ERYRI**
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
07050 357735

FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
*PORCHES*
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS
BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES



Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

# Ardal y 'Susquechanna Slate'

Darllenais gyda diddordeb arbennig y sylwadau yn rhifyn Mis Mai o *Eco'r Wyddfa* ar y diwydiant llechi yn ardal Delta ym Mhennsylvania, oherwydd ar Ebrill 19 eleni ymwelodd dros hanner cant ohonom o Ogledd Cymru a'r gymdogaeth hon. Ar ein ffordd roeddem o Washington i Efrog Newydd i gefnogi Gwyn Hughes Jones yn 'Nabucco' yn Nhŷ Opera'r Met. Cawsom groeso traddodiadol Cymreig gan aelodau Capel Rehoboth, Delta, ac aethom ar daith o gwmpas yr ardal.

Mae hanes datblygiad yr ardal hon yn hynod ddiddorol gyda chysylltiadau agos iawn ag ardaloedd y llechi yng Ngogledd Cymru. Agorwyd talaith Pennsylvania i fewnfudwyr pan dderbyniodd y Crynwr, William Penn, dir gan y Brenin Siarl II a sefydlu'r 'Arbrawf Sanctaidd'. Amaethyddiaeth oedd y prif alwedigaeth ar y dechrau ond darganfuwyd llechfaen yno yn 1734 gan ddau frawd o Gymru, William a James Rees. Ni ddechreuwyd cynhyrchu llechi yno tan 1830 a'r gweithwyr cyntaf oedd dynion o Loegr, Iwerddon a'r Alban. Er fod y garreg ei hun o safon eithriadol o uchel, gwael oedd y cynnyrch oherwydd diffyg profiad y chwarelwyr. Penderfynwyd denu arbenigwyr o Gymru ac, oherwydd y dirwasgiad yn y diwydiant yn Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd a thlodi y chwarelwyr a'u teuluoedd nid oedd prinder o'r rhai yn barod i fentro i'r 'byd newydd'. Menter yn wir ydoedd yn wyneb peryglon y daith dros yr Iwerydd. Roedd digon o fasnachwyr yn barod i drefnu'r daith gan elwa o arian prin y teithwyr – taith yn amrywio rhwng 5 wythnos a 3 mis, yn dibynnu ar gyflwr y llongau. Oherwydd amgylchiadau echrydus y *steerage*, diffyg dŵr ffres ac ansawdd gwael y bwyd, roedd afiechydon yn rhemp a bu farw llawer ar y daith. Er enghraifft cychwynodd y llong *City of Glasgow* ar y daith ar Fehefin 1, 1854 gyda 480 o deithwyr gan gynnwys 80 o Gymry. Ni chyrhaeddodd y llong Efrog Newydd a ni ŵyr neb beth a ddigwyddodd iddi.

Wedi cyrraedd Pennsylvania roedd angen ymgynefino â'r hinsawdd gwahanol gyda thymheredd mor isel â -20° yn y gaeaf a gwres tanbaid o 80° i 90° yn yr haf, gyda lleithder anioddefol o uchel. Rhwng 1840 a 1850 datblygwyd 12 chwarel gyda'r mwyafrif o'r gweithwyr o Gymru. Oherwydd eu arbenigedd ychwanegwyd yn sylweddol at maint ac ansawdd y cynnyrch. Oherwydd eu profiad a'u cymwysterau, Cymry oedd rheolwyr a pherchnogion y mwyafrif o'r gweithfeydd megis Foulk Jones, Robert Griffith, John G. Roberts, a agorodd Chwarel West Bangor, Capt. David Jones, Griffith Ellis, Richard Rees, William E. Williams, John Williams, Robert L. Jones a Thomas Proctor. Dywedir bod dros 400 o Gymry yn gweithio yn y diwydiant.

Ar waethaf y tywydd anghyffredin codwyd safonnau byw y gweithwyr oherwydd cyflawnder cnydau yr ardal a phrisiau isel tir a defnyddiau. Prynodd llawer ddarnau o dir er mwyn parhau y traddodiad o gadw anifeiliaid, a chodwyd tai cerrig gan y Cymry ar batrwm Cymreig. Nid oeddynt yn gyfarwydd â'r dulliau Americanaidd o ddefnyddio coed ac, oherwydd eu cymeriad unigryw, mae'r ychydig o'r tai hyn sydd ar ôl wedi eu cofrestru yn yr *American National Register of Historic Places*. Codwyd nifer o Gapeli Cymraeg yn yr ardal gan gynnwys y 'Capel Main' cydenwadol,' Capel yr Annibynwyr, a Chapel Rehoboth y Methodistiaid Calfinaidd yn 'West Bangor'. Mae Rehoboth yn parhau i fod yn eglwys fyw heddiw.

Mae mynwent Slateville yn cynnwys llawer iawn o feddrodau'r Cymry a phrofiad trist oedd darllen y geiriau arnynt. Nid oes yr un ohonynt yn cynnwys y cyfeiriad yn America ond, yn hytrach yn hardaloedd yng Nghymru. Dyma ychydig o enghreifftiau:





Er cof am John Tyson,<br>Gynt o Landdeiniolen, G.C.<br>Bu farw Mai 16, 1857,<br>yn 52 mlwydd oed.<br>Dirwymwyd edeu'r einioes<br>Yn gron gan yr hwn a'i rhoes.

Er cof am John Williams<br>Talgau gynt, ger Bangor, G.C.<br>Fu farw Mawrth 5, 1869, yn 55<br>mlwydd oed.

Er cof am Hugh Williams<br>A ddaeth i'r wlad hon<br>o Ffestiniog G.C.<br>Ym Mawrth, 1845<br>A fu farw Ebrill 6, 1865, yn 58 ml<br>a 6 mis.

Er cof am blant James a Mary<br>Williams,<br>Mary a fu farw Medi 4, 1858,<br>yn 1 ml. A 6 mis oed,<br>David a fu farw Tach.11, 1860,<br>yn 1 ml. a naw mis oed.<br>'Mary o fyd y meirwon a ddaw allan<br>O ddullwedd Per Seion<br>A'i brawd ddaw yn ei llaw llon<br>O'r gwerydd i fro'r goron.'

Bu dirywiad yn y diwydiant erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, yn bennaf oherwydd problemau technegol. Ymddengys fod llawer o'r gweithfeydd yn rhy gul a rhy ddyfn gyda'r tomenni sbwriel yn rhy agos i'r ymyl. Cafwyd mwy nag un tirlithriad, gyda chanlyniadau trist iawn. O 1910 ymlaen symudodd llawer o'r chwarelwyr i ddiwydiannau eraill a'r ergyd derfynnol oedd dirwasgiad mawr y 30au. Heddiw dim ond 4% o'r 700 o drigolion Delta sydd o dras Gymreig.


Slate Hill, Pa.

FOULK JONES & SONS,

Peach Bottom Roofing Slate.

Paid

Mae 30 o aelodau yn perthyn i Gapel Cymraeg Rehoboth gan gynnwys rhai heb gysylltiadau o gwbl â Chymru. Eto, oherwydd eu parch i draddodiadau'r Capel mae'r aelodau wedi ymrwymo i ddysgu Cymraeg, gan gynnal dosbarthiadau yn wythnosol a Gwasanaeth Dwyieithog bob Nos Sul. Mae Côr Cymraeg Rehoboth yn cyfarfod yno yn rheolaidd a derbyniodd y cantorion gyhoeddusrwydd cenedlaethol trwy dderbyn gwahoddiad i ganu ym mhriodas Catherine Zeta Jones. Gweinidog yr Eglwys yw Richard Price Baskwill a dderbyniwyd i'r Orsedd dan yr enw 'Risiart Rehoboth' yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, Llanbedrgoch, yn 1999, fel cydnabyddiaeth o'i ymroddiad i ddysgu'r iaith a'i deyrngarwch i draddodiadau Cymru.




Blodau Racca
(Alwyn and Sarah Jones)
Ffôn 870605
• Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
• Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
• Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
• Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres
RHODD O'R GALON YW BLODAU

**Fframia** Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

AM WASANAETH YSWIRIANT PERSONOL
GALWCH EIN SWYDDFA LEOL YNG NGHAERNARFON
NFU Mutual
FFÔN 01286 673377
FFACS 01286 671440
YSWIRIANT LLEOL A CHYSTADLEUOL AR GYFER
TAI, CERBYDAU, YSWIRIANT BUSNES A BUDDSODDIADAU
NFU MUTUAL
19 STRYD BANGOR
CAERNARFON LL55 1AT
Mae'r NFU MUTUAL yn aelod o'r General Insurance Standard Council

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Ar noson hyfryd o haf, i ddiweddu gweithgareddau'r tymor, aeth yr aelodau ar daith ar hyd lonydd Arfon ac Eifionydd a chyrraedd Rhydyclafdy i gael pryd blasus yn Nhafarn Tu Hwnt i'r Afon. Trefnwyd y noson gan Nora Parry a Sheila Roberts a diolchwyd iddynt ar ran yr aelodau am noson gartrefol braf, gyda phopeth wedi mynd yn hwylus, gan Jenkin Griffiths.

Enillodd y canlynol wobrau yn y raffl: Mair Jones, Megan Humphreys, Maud Williams ac Ivy Wright.

NOSON BINGO
i'w gynnal yn
Neuadd Gymuned Penisarwaun
am 6.30 o'r gloch
nos Fawrth, 15 Mehefin.
Lluniaeth ysgafn ar gael
Yr elw at Glwb Drama Rygarug

CYDYMDEIMLO. Ddydd Mawrth, 18 Mai, bu farw Mrs Buddug Roberts, Y Rhos. Estynnir pob cydymdeimlad ag Eurgain, Goronwy ac Esyllt a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Daeth gweithgareddau'r tymor i ben gyda thaith ddirgel a swper nos Fawrth, 18 Mai. Erbyn hyn, gellir datgelu mai yn Nhy' Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy y cafwyd pryd blasus iawn a bod y criw da a ddaeth ynghyd wedi mwynhau eu taith drwy Eifionydd a'r pryd yn Twnti.

CLWB 100 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau Mawrth oedd (33) Ceinwen Roberts, Bro Eglwys: £50; (67) Elen, 14 Tan y Buarth: £25; (3) Ann Stuffelder, 21 Y Ddôl: £10.

Enillwyr Ebrill oedd (6) Enid Christie, 16 Y Ddôl: £50; (136) Gwyndaf a Sandra Jones, Tŷ Gwyn, Saron: £25; (65) Sheila Roberts, 12 Tan y Buarth: £10.

CLWB CANT CLWB PÊL DROED Enillwyr gwobrau Ebrill oedd Alwyn Thomas, Caernarfon: £100; Dewi Rowlands, Bethel: £50; Steven Closs Williams, Bethel: £25; Lona Jones, Bethel: £25.

ADRAN YR URDD BETHEL. Mae'r gweithgareddau wedi bod allan ar gae Ysgol Bethel y tymor hwn.

Ar nos Fercher, 21 Ebrill daeth Sian Harris arom a chafodd y plant hwyl yn chwarae rownderi. Diolch Anti Sian.

Aeth nifer dda i gystadlu yn y rasus traws gwlad yng Nglynllifon nos Fercher, 28 Ebrill. Roedd nifer fawr yn cystadlu ymhob ras (dros 50 yn ambell un). Mi rebodd pawb yn arbennig o dda a daeth llawer o'r aelodau yn y deg cyntaf yn eu rasus. Mi ddaru Ilid Jones ddod yn drydydd yn ras Bl 4; Einir Evans yn ail yn ras Bl 5 a Daniel Bell yn gyntaf yn ras bechgyn Bl 5. Llongyfarchiadau mawr i chwi'ch tri.

Ar nos Fercher, 12 Mai cafwyd noson o fabolgampau. Cynhaliwyd nifer o rasus ac roedd cystadlu brwd ymysg y plant. Bydd cyfle ym mis Mehefin i rai ohonynt fynd i gystadlu ym mabolgampau cylch yr Urdd.

Rhaid dymuno'n dda i'r holl blant sy'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Môn yn ystod hanner tymor. Maent wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer a bydd yn rhaid i sawl un godi'n fuan iawn ar gyfer y rhagbrofion. Pob lwc i chwi i gyd. Bydd y Grŵp Offerynnol, Ensemble lleisiol tri llais, Cân gyfoes, Gwilym ar yr Unawd pres, Parti deulais, Parti cerdd dant a Chôr yn cynrychioli'r Adran.

Bydd hefyd aelodau o'r Uwch Adran yn cystadlu, sef Parti deulais cerdd dant, Parti unsain cerdd dant, Ensemble, Grŵp dawnsio disgo, Sasha Williams dawnsio disgo unigol, heb anghofio ein cyn-aelodau, Huw Foulkes a Rhys Hughes – dipyn o dalent o bentref bach. Gobeithio y cawn weld rhai ohonoch ar lwyfan y Genedlaethol. Diolch i'r holl hyfforddwyr am eu hamser a'u hamynedd.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI 2005. Nos Fercher, 20 Mai, cafwyd cyfarfod cyhoeddus arall i drefnu gweithgareddau i godi arian at y targed lleol o ychydig dros £3000. Cafwyd adroddiad calonogol iawn ar ganlyniad yr ymgyrch codi arian hyd yma a bod £850 eisoes yng nghronfa Bethel, Llanddeiniolen a Seion.


Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd aelodau o'r pwyllgor lleol yn dosbarthu ffurflen gyfrannu a bydd cyfranwyr sy'n talu treth incwm yn gallu trefnu fod Cyllid y Wlad yn rhoi 28c i'r Eisteddfod am bob £1 y byddant yn ei gyfrannu. Bydd yr ymgyrch yma yn siŵr o gyfrannu'n sylweddol at weddill y targed.

Mae'r trefniadau ar gyfer min nosau'r wythnos o weithgareddau ar 21–26 Mehefin hefyd bellach ar y gweill:
**Llun**: Taith gerdded am 7.00;
**Mawrth**: Cwis – Y Bedol am 8.00;
**Mercher**: Twrnament 6-bob-ochr – oedolion (Cae Top) am 6.30;
**Gwener**: Twrnament pêl-droed – iau (Cae Top) am 6.00.

Rwy'n siŵr y bydd pawb wedi mwynhau eu hunain yn ystod yr wythnos ac y bydd y gronfa leol yn elwa'n sylweddol.

Cofiwch am ddydd Sadwrn, 26 Mehefin. Bydd Gŵyl y Cyhoeddi yng Nghaernarfon.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, 22 Medi, i drefnu rhaglen o weithgareddau at y gaeaf.



*Enillwyr Traws Gwlad yr Urdd: Einir Evans, Daniel Bell ac Ilid Jones*

# Hwyl Haf Bethel!
# 21-25 Mehefin 2004



## Nos Lun 21 Mehefin
## Taith Gerdded Hirddydd Haf
yng nghwmni Seiriol a Beti £1 y pen
Cyfarfod yn y Neuadd Goffa am 6.30
Cyrraedd yn ôl tua 8.30
Lluniaeth ysgafn ar gael

## Nos Fawrth 22 Mehefin
## CWIS
Cwisfeistr—Richard Lloyd Jones
Y Bedol am 8 o'r gloch





## Nos Fercher 23 Mehefin
## Peldroed Oedolion 6 Bob ochr
Trefnydd: Richard Lloyd Jones
Cae Coed Bolyn Bach am 6.30 o'r gloch

## Nos Wener 25 Mehefin
## Peldroed Plant
Trefnydd: Arwel Jones £1 y pen
Cae Coed Bolyn Bach 6 o'r gloch
Lluniaeth ar gael



Dewch â thîm, neu dewch eich hun! Croeso i bawb!

Elw tuag at Bwyllgor Apêl Bethel, Llanddeiniolen a Seion
Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 30 Gorff—6 Awst 2005

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DYMUNA'R Cynghorydd Pat Larsen ddiolch i bobl Brynrefail am ei dychwelyd i Gyngor Gwynedd am y pedair blynedd nesaf. Diolch ichi am eich cefnogaeth a phetai problem gennych, cysylltwch â hi ar Llanberis 870533.

DIOLCHIADAU Dymuna Gwilym (Wil) a Jennie Hughes Bryn Parc ddiolch o waelod calon i'w teulu, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd tuag atynt ac am y llu anrhegion a chardiau dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu priodas ddiemwnt. Hefyd dymuna Jennie ddiolch ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch yn fawr.

DYMUNA Dorothy a Colin Wager, Tŷ Eryri ddiolch i ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a'r dymuniadau da dderbyniwyd yn ystod arhosiad Dorothy yn Ysbyty Gwynedd.

Diolch arbennig i bawb ym Mrynrefail a'r pentrefi cyfagos fu'n cynorthwyo i gadw'r Swyddfa Bost ar agor yn ystod yr amser anodd hwn.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMANFA DOSBARTH PADARN Mynychwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Coch, Llanberis ddydd Sul, Mai 2il gan nifer o'r aelodau. Arweinydd y Gân oed Mrs Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Rwyn siŵr fod holl aelodau'r Dosbarth fu'n bresennol yn oedfa'r prynhawn a'r hwyr yn gwerthfawrogi yn fawr y paratoadau a'r trefniadau trylwyr a chroeso arbennig yr eglwys yng Nghapel Coch a wnaeth y Gymanfa yn ŵyl mor lwyddiannus.

CYMDEITHAS Y CAPEL Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri nos Iau, Mai 13eg dan lywyddiaeth Mr Gareth Llwyd Dafydd. Yn dilyn myfyrdod dan arweiniad Mrs Elen George, croesawodd y Cadeirydd ŵr gwâdd y noson, sef Mr Ralph Jones, Llanberis. Cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ganddo am Santiago de Compostela lle'r edrydd traddodiad i gorff Sant Iago, a fu'n cenhadu dros Gristnogaeth yn Sbaen, gael ei ddarganfod ganrifoedd yn ddiweddarach. Tyfodd y fan dros y blynyddoedd yn gyrchfan pererinion a thrwy gymorth sleidiau cafwyd golwg ar adeiladwaith gain y Gadeirlan a godwyd yno ac arwyddocad y cerfluniau rhyfeddol. Talwyd gair o ddiolch cynnes gan y Cadeirydd. Mwynhawyd lluniaeth ar y terfyn wedi ei drefnu gan Joan Williams a Dwynwen Williams.

Bydd y cyfarfod nesf nos Iau, Mehefin 17eg yng nghwmni Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir. Ycadeirydd fyddd Mr D.G.Ellis, Gweledfa.

OEDFAON MEHEFIN
6 Mr Glyn Owen, Llanwnda am 5.30
13 Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 5.30
20 Dr William H.Munro, Llanberis am 5.30
27 SUL CYMDEITHAS Y BEIBLAU

## DIOLCH

DYMUNA Megan Williams, Paradwys, Lôn Groes, Gaerwen, ddiolch yn ddiffuant iawn i'w theulu a ffrindiau yn ardal Dinorwig a Deiniolen am yr holl gardiau a rhoddion hael a dderbyniwyd pan gollwyd ei hannwyl briod. Bu'r cyfan yn gymorth a chysur mawr. Diolch o galon.

# Hen Wlad fy Nhadau

**Jack Williams** (Long Beach, California)

**Ar Orffennaf 12 1945 gadewais Lundain ar y trên 8.15am. am ogledd Cymru. Holais un o ferched y Groes Goch yn y Columbia am Gymru, a'i hateb oedd 'Peidiwch â mynd yno, mae hyd yn oed y tafarndai wedi cau ar y Sul!'**

Roedd yn siwrnai ddiddorol drwy gefn gwlad Prydain ac am ran o'r ffordd cefais sgwrs ddifyr â merch ifanc oedd yn y Gwasanaeth Milwrol. Wrth fynd allan dywedodd,

'Well, cheerio.' Ni wyddwn sut i ymateb i'r dywediad Saesneg yma. Meddyliais am ddweud 'Cheerio,' yn ôl, ond nid oeddwn erioed wedi dweud y gair. Wn i ddim beth ddywedais, ond mae'n debyg mai 'Good by' ddaeth allan.

Cyrhaeddodd y trên ym Mangor, Cymru, am 2pm., ac roedd gennyf 3 awr i aros am y trên nesaf i Gaernarfon. Gan fod cyfeiriad Anti Nell yn dweud 'Deiniolen, ger Caernarfon', roeddwn wedi prynu tocyn i'r dref honno. Wrth ladd amser yn ninas Bangor gwelais fws a 'Deiniolen' arno ac wedi holi'r gyrrwr dywedodd y byddai'n cychwyn ymhen awr. Yr adeg hynny y darganfyddais fod Deiniolen, Bangor a Chaernarfon yn ffurfio triongl, felly os oedd y ffordd rhwng Bangor a Chaernarfon ar waelod y triongl roedd Deiniolen ar ei frig. Euthum ar y bws ac ni chefais weld Caernarfon.

Erbyn 4.15 roeddwn yn Neiniolen a gofynnais i'r dreifar ddweud wrthyf yn lle i fynd i lawr. Ac felly y bu. Gerllaw roedd plant yn chwarae a holais un ymhle roedd 29 New Street. Nid atebodd fi ond siaradodd yn Gymraeg â geneth hŷn. Edrychodd hithau arnaf a dweud rhywbeth wrth hogyn hŷn eto, a rhedodd yntau i siop y groser. Roeddwn wedi fy synnu â'r ymateb yma. Yn fy meddwl i y cyfan oeddwn wedi'i wneud oedd gofyn am gyfarwyddiadau. Roeddent wedi ymateb i'm gofynion ond nid i mi.

Dyna lle'r oeddwn i, soldiwr Americanaidd yn ei lifrai a doedd neb wedi dweud gair wrthyf i'n bersonol, yn Gymraeg na Saesneg hyd yn hyn. Wedyn, daeth y groser allan o'i siop a gofyn i mi beth oeddwn ei eisiau. Eglurais fy mod yn chwilio am gartref Mrs O.O. Jones yn New Street. Edrychodd arnaf yn amheus a gofyn,

'Pam rydych chi eisiau ei gweld?'

Dywedais, 'Rydw i'n nai iddi hi.' Bois bach, dyna newid agwedd! Dywedodd rywbeth wrth un o'r plant ac yna wrthyf fi,

'Ewch efo fo. Bydd yn mynd â chi yn syth i'w thŷ.' Fe wnaeth hynny hefyd.

Curais y drws ac fe'i agorwyd gan Anti Nell. Roedd yn gwisgo cot a het ond cefais groeso mor gynnes ganddi pan ddywedais pwy oeddwn. Eglurodd ei bod ar fin mynd allan i'r post ac roedd llythyr yn ei llaw wedi ei gyfeirio i mi – am gyd-ddigwyddiad!

Arhosais dros nos hefo Anti Nell a thrannoeth, tywysodd un o'r cymdogion fi o gwmpas y pentref (rwy'n edifar na wneuthum gofnodi enwau'r bobl fu mor garedig hefo mi.) Aeth â fi i weld hen ŵr oedd yn adnabod fy nhaid cyn iddo fynd i America. Ni chofiaf ei enw ond cofiaf fynd i'w dŷ – tŷ cerrig ar godiad tir. Roedd nenfwd hefo trawstiau pren yn yr ystafell fyw, oedd yn fy atgoffa o drawstiau pren a ddychmygais fyddai mewn ystafell fwyta hen gastell. Nid wyf yn gwybod enw'r tŷ ond roedd yng Nghlwt-y-bont.

Ar dir gwastad yn y pentref gwelais 'Gors', oedd yn adfail erbyn hyn. Dyma hen gartref teulu fy Nain, sef chwaer Anti Nell.

Cyn gadael Camp Pall Mall, a rhag ofn i ni fynd i aros gyda theulu ar ein seibiant, rhoddwyd rations a chwponau ration i'r milwyr Americanaidd. Gan fod trigolion Prydain ar ddogn llym,



*Jack Williams (U.D.A.) yn 1945, ŵyr i'r Parch. John Rhiwen Williams.*

nid oedd llu arfog yr U.D. eisiau i ni achosi caledi iddynt. Ni ddefnyddiais fy rhai i yn Llundain felly cafodd Anti Nell nhw. Roedd wedi gwirioni gyda'r tuniau C- Rations, a dywedodd nad oedd wedi gweld dim byd tebyg i'r tun 'hash' ers llawer dydd.

Roedd gen i sigaréts hefyd. Doeddwn i ddim yn smygu, ond roedd y gŵr aeth a mi o gwmpas Deiniolen yn hoff o'i smôc. Roedd wedi gwirioni pan gaofdd focs gydag ugain paced! Roeddwn i'n falch iawn o'i weld mor hapus.

Y diwrnod wedyn, 14 Gorffennaf, euthum i ddisgwyl y bws i Fangor er mwyn dychwelyd i Lundain. Wrth aros am y bws yn Neiniolen, daeth Saeson, oedd wedi sylwi ar fy iwniform Americanaidd, ataf gan ddweyd,

'Hi, Yank.'

Dywedasant nad oeddent yn hoffi'r Cymry, ond gwelsant nad oeddwn i'n cydweld â nhw. Ar ôl iddynt symud gam neu ddwy i ffwrdd croesodd dyn o'i garej tuag ataf. Holodd fi pam oedd soldiwr Americanaidd yn Neiniolen (ni welais yr un arall yng Nghymru tra bûm i yno.) Pan ddeallodd fy mod o dras Cymreig a bod fy nhaid a nain wedi ymfudo i U.D.A. o Ddeiniolen cefais groeso twymgalon. Wrth grybwyll y Saeson oedd yn aros am y bws deallais nad oedent yn boblogaidd iawn yn yr ardal.

Er mai ychydig a welais ar ysblander tirwedd garw gogledd Cymru, roedd yn rhyfeddol. Eto, tu draw i'r golygfeydd, trip emosiynol oedd hwn i mi, gan i mi gael cyfle i weld gwlad fy nghyndeidiau. Roeddwn yn ddiolchgar fod fy ngwasanaeth milwrol wedi rhoi'r cyfle hwnnw i mi, er na wneuthum freuddwydio y gallwn ddod yn ôl rhyw ddiwrnod am ymweliad hirach.

Euthum i Fangor ar y bws 10am. gan ddal trên 12.15 a chyrraedd Llundain am 7pm.

*Gwelsoch lun 'Gors', cartref teulu Jack yn yr Eco fis diwethaf – ac ef roddodd y llun i'w berthynas, Wynn Davies. Os oes unrhyw un yn cofio Nell Jones, Stryd Newydd, neu ymweliad Jack â Deiniolen, ffoniwch Caernarfon 672757. Diolch).*


**ORIEL CWM**
**Cwm y Glo**
FINE ART TRADE GUILD
**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**



**IEUAN WILLIAMS**
**Glanffrwd**
**DEINIOLEN**
**(01286) 870484**
➤ **Bysiau o 12 i 53 sedd**
➤ **Teithiau Lleol a Thramor**
➤ **Gwaith Contract**
➤ **Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol**


## CWM Y GLO

**Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

NOSON BINGO
i'w gynnal yn
Neuadd Gymuned Penisarwaun
am 6.30 o'r gloch
nos Fawrth, 15 Mehefin.
Lluniaeth ysgafn ar gael
Yr elw at Glwb Drama Rygarug

LLONGYFARCHIADAU i Mam, Nain a Hen Nain, sef Mrs Nellie Mai Owen, ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed ar 24 Mai. Pob dymuniad da oddi wrth y teulu, ffrindiau a chymdogion.

UNDEB Y MAMAU. Treuliwyd nos Lun, 19 Ebrill yn y Rheithordy, Llanfairpwll yng nghwmni Mrs Sandra Hughes ac aelodau cangen Llandegfan/Porthaethwy. Dechreuwyd gyda gwasanaeth. Darllenodd Mrs Dorothy Jones y llith a thrafodwyd rhai materion. Mwynhaodd pawb weddill y noson yn gwneud croesau i'w hanfon i aelodau Undeb y Mamau yn Uganda. Yr oedd lluniaeth wedi ei drefnu gan Sandra a diolchwyd iddi gan Mrs Enid Taylor. Ymunodd y Parch Philip Hughes gyda ni i ganu'r gras i ddiweddu'r noson.

Cafwyd cyfarfod nos Lun, 10 Mai yn yr Ysgol Gymuned. Croesawodd Mrs Dorothy Jones bawb a chafwyd gwasanaeth i ddechrau'r noson. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Kathleen Jones, Ms Marjorie Roberts a Miss Meira Williams. Trafodwyd materion a godwyd ym mhwyllgor y Ddeoniaeth gan Dorothy.

Ein gwraig wadd oedd y Parch Ann Smitham a threuliwyd noson ddiddorol iawn yn gwylio fidios o'i thaith i Uganda. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt. Diolchwyd i'r Parch Smitham gan Dorothy a diolchodd Mrs Joyce Ransom i'r gwesteion. Enillwyd y raffl gan Gwyneth. Terfynwyd trwy adrodd y gras.

Cyfarfod nesaf nos Lun, 7 Mehefin yn yr Ysgol Gymuned – 'Moes a Phryn'. Croeso cynnes i bawb.

DYMUNA Eifion a'r teulu, Glan-y-don, Cwm-y-glo, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion, ffrindiau a phawb yn KMP, Llanberis am y galwadau ffôn, cardiau a phob dymuniad da tra yn sâl yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb yn Surjeri Llanberis ac aelodau Tîm Calon Lân.

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Gwilym Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, Llanberis ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu cardiau, anrhegion a'u dymuniadau gorau iddo ar achlysur ei ben-blwydd yn 60 yn ddiweddar.

DYMUNA Vera Griffiths, 8 Glanrafon, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Nos Wener, 7 Mai, fe gyfarfu aelodau o'r Côr, eu gwragedd a ffrindiau'r Côr yng Ngwesty Dolbadarn i dalu teyrnged i Mair Hughes ar achlysur ei hymddeoliad o'i swydd fel arweinyddes y Côr yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Cyflwynwyd tystysgrifau i Mair ac i Arwel Jones, y cyn-arweinydd a'r is-arweinydd presennol, i ddatgan cydnabyddiaeth y Côr i'r ddau am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd.

Cynlluniwyd y Tystysgrifau, oedd yn cynnwys enwau'r rhai a fu'n aelodau o'r Côr yn ystod arweinyddiaeth Mair ac Arwel, gan Emerson Hughes.

Paratowyd gwledd foethus gan Aneuryn a threfnwyd yr adloniant wedi'r wledd gan Raymond Jones.

Arweinyddes newydd y Côr yw Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Brynrefail, ac mae bellach wedi ymafael yn yr awenau mewn ymarferion a nifer o gyngherddau.

Bydd y Côr, ynghyd â Chôr Lleisiau Lliwedd, yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn Eglwys Sant Padarn ar nos Sul, 6 Mehefin.



*Arwel Jones a Mair Hughes yn derbyn tystysgrifau am eu gwasanaeth i Côr Meibion Dyffryn Peris.*

## Pwyllgor Apêl Llanberis

**Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 2005**

# Cyngerdd Doniau Lleol

**7.30yh, nos Sul, 6 Mehefin**

**Eglwys Sant Padarn Llanberis**

gyda

**Lleisiau Lliwedd**

**Côr Meibion Dyffryn Peris**

**a phlant a phobl ifanc yr ardal**

**Tocynnau: £3. (oedolion), £1. (plant) ar gael gan Carys Morris (01286) 871954 neu ar y drws**

## Côr Lleisiau Lliwedd

Bu'r Côr yn diddanu gwesteion Gwesty'r Quality, Llanberis ar y cyntaf a'r wythfed o fis Ebrill, ac hefyd ar Fai'r chweched. Ar y trydydd o Ebrill, diddanu gwesteion Gwesty Glantraeth, Ynys Môn, oedd eu rhan.

Profiad unigryw i'r Côr oedd cymryd rhan mewn cyngerdd a gwasanaeth yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris, o dan arweiniad Mr Eilian Williams, i gofio'r hil-laddiad yn Armenia yn y flwyddyn 1915. Cymerwyd rhan hefyd gan unigolion a chôr o Armeniaid. Cyflwynwyd gweddïau gan y Parch. John Pritchard, y Parch. John Owen a'r Tad McNamara.

Yn ystod Ebrill a Mai, dathlwyd priodasau dwy o aelodau'r Côr, sef Delyth o Gwm-y-Glo gydag Arfon, a Sera, o Nant Peris, â Simon. Dathlwyd priodas Delyth ac Arfon yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis. Pleser ac anrhydedd mawr i'r Côr oedd cael cymryd rhan ym mhriodas Sera yn eglwys fach y Nant ar 15 Mai, ac yna ymuno yn y dathlu yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd.

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r ddau gwpwl yn y dyfodol.

## TRWYDDEDU, SEFYDLU A CHROESAWU

Ar nos Fawrth, 11 Mai, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Padarn i drwyddedu'r Parchedig Deiniol Morgan yn Gurad mewn Gofal eglwysi Llanberis, Nant Peris, Llanrug, Cwm y Glo a Llandinorwig. Gweinyddwyd y drwydded gan Archddiacon Bangor, Yr Hybarch Alun Hawkin (cyn Reithor plwyf Llanberis), ac arweinwyd y gwasanaeth a'r sefydliad gan y Deon Bro, y Parchedig Roger Donaldson. Traddodwyd yr anerchiad gan y Parchedig Tegid Roberts, Is-Ganon yng Nghadeirlan Bangor. Yr organydd oedd Dr W. Munro.

Roedd yn achlysur pleserus iawn i groesawu offeiriad newydd i'r fro, ei wraig Helen a'u teuluoedd a'u cyfeillion o bell ac agos. Daeth cynrychiolaeth gref o glerigwyr ac aelodau y Gadeirlan ym Mangor i'r gwasanaeth a da oedd gweld cynifer o gyfeillion o enwadau eraill y fro yno i groesawu y cwpwl ifanc. Diolch am eu cefnogaeth.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth gwerth chweil i'r gynulleidfa gyfan, a ddarparwyd gan ferched o'r eglwysi. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd at yr achlysur a dymunwyd yn dda i'r Parchedig Deiniol Morgan ar ddechrau ei yrfa yn ein mysg, gyda gofal am bum eglwys mewn tri phlwyf.


J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

**Y Sgwâr Llanrug**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol

Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)


## Côr Meibion Dyffryn Peris

Y mae'r Côr uchod angen aelodau newydd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r gymdeithas hapus hon, dewch am sgwrs i'r Mynydd Gwefru, Llanberis, ar nos Lun am 7.30 o'r gloch neu cysylltwch â **Hefina Jo**




**Etholiad Cyngor Gwynedd 10 Mehefin 2004**

Plaid Cymru The Party of Wales

**Carys Morris**

**Ymgeisydd Plaid Cymru Llanberis a Nant Peris**

***Llais newydd i Lanbêr a'r Nant !***

Cyhoeddwyd gan Carys Morris, Graianfryn, 39 Stryd Newton, Llanberis. Ffôn: (01286) 871954

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 4ydd o Fai yng Nghanolfan Penisa'rwaun. Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd llywyddwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Richard Ll Jones.

**Offrymwyd y Weddi** agoriadol gan y llywydd. Cyfeiriwyd yn y weddi at gwmwl a ddaeth dros yr ardal yn ddiweddar pan glywyd am farwolaeth un o fawrion y genedl ymhell cyn pryd, un a hanai o'r gymuned.

**Cofnodion y 13eg o Ebrill**
Ymddiheurwyd i Mrs Larsen am nad oedd ei henw ar y rhestr. Amlygwyd bod angen hysbysu Eleri Carrog, Cefn, o ateb Ewro DPC.

**Tai fforddadwy.** Cafwyd braslun o fwriad Cynllun Unedol Gwynedd gan y Cynghorydd Huw P. Hughes – canran o ystad newydd yn rhatach trwy gytundeb â datblygwr, tir o fewn y ffin ddatblygu i fod at anghenion lleol (prynwyr cyntaf). Eglurwyd mai'r gymuned a ystyrir fel *'lleol'* ac nid pentref. Amlygwyd nifer o anhawsterau fel: pris tir yn uchel ar y farchnad agored; sawl teulu yn ceisio am yr un tŷ.

Arddangosir y cynllun ym mhentrefi'r ardal, gan Gyngor Gwynedd, cyn diwedd Mehefin a daw'r ddogfen drafod i'r Cyngor. Penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig i ymateb i'r ddogfen.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**Materion o'r cofnodion**
Ateb Cyfadran Datblygu Gwynedd yn dweud nad yw ISC, Clwt y Bont wedi eu hysbysu o'u bwriad i symud i Landygai. Dywedodd y Cynghorydd Len Jones bod yr Adran yn ymwybodol o hyn trwy eu presenoldeb yng ngharfodydd *Gyda'n Gilydd, Gwaun Gynfi.* Penderfynwyd amlygu siom y Cyngor gynnwys y llythyr.

Ail Gylchu, Dinorwig. Derbyniwyd cadarnhad Gwynedd y byddant yn asesu'r cerbydau i arbed colli papurau yn y dyfodol.

Safle parcio, Maes Eilian, Dinorwig. Mae modd, trwy'r Adran Gymdeithasol, i berson anabl gael safle parcio arbennig.

Golau ger Gors Bach. Bydd angen cael caniatâd perchennog y tir i osod cebl drydan yn y ddaear o'r polyn trydan i'r lôn.

Cyn-Orsaf yr Heddlu, Deiniolen. Llythyr Adran Ffyrdd Gwynedd. Maent yn trefnu i symud y cerrig o ochr y ffordd er bod y llain tir o flaen y tŷ yn rhan o eiddo'r Hen Orsaf.

Ffynnon Cegin Arthur. Cyfarfu Miss Phylis Ellis a Mrs Pat Larsen a Mr Leslie Larsen â Mr Dewi Parry (679495) o Gyngor Gwynedd ar y safle. Bydd angen mwy o wybodaeth cyn symud ymlaen. Addawodd Mr Parry chwilio am hen *fapiau.*

Ateb y Prif Uwcharolygydd Gareth Prichard. Danfonwyd cwyn y Cyngor ynglŷn â'r Ganolfan Alw, ymlaen i'r Uwcharolygydd Ruth Purdie yng Nghanolfan Alw Llanelwy.

Rhoir sylw i'r mater o godi gwlîau draenio yn Neiniolen gan y Rheolwr Rhawd Cymunedol.

Mainc Clwt y Bont a mainc Penisa'rwaun. Derbyniwyd pris Mr Bryn Hughes, Penisa'rwaun, am waith atgyweirio.

Ein cefnogaeth i wrthwynebiad Hywel Williams AS. Daeth ateb oddi wrth yr *Inland Reveue* i'r llythyr a ddanfonwyd i'r gwir Anrhydeddus Gordon Brown yn cadarnhau eu bod yn benderfynnol o fuddsoddi cyllid pensiynnau preifat mewn eiddo preswyl.

Biniau baw Cŵn. Awgrymwyd y lleoliadau canlynol gan Huw P. Hughes ar gyfer Bethel:
Rhwng Siop Treflan a Tre Gôf;
Rhwng Tre Gôf a Gwyndy;
Llwybr y tu cefn i Gapel Cysegr; Penrhos;
Pafin dros y ffordd i Tai Cremlyn.

**Gohebiaethau eraill**
Cyflwynodd Len Jones dri mater:

- Llythyr Cyfadran Amgylchedd Gwynedd yn rhybuddio y byddant yn archwilio cerrig beddau'r ardal. Gwneir hyn ym mynwent Macpelah yn ystod mis Mai. Gosodir rhybydd ar y rhai peryglus a disgwylir i deuluoedd eu hatgyweirio cyn diwedd Awst.
- Cofeb Rhyfel, Deiniolen. Dywedodd ei fod wedi cysylltu â'r Rheng Brydeinig ynglŷn â chynnal a chadw'r gofeb, a bod Mr Vernon Price o'r farn bod hawl gan Gyngor Cymuned i wneud y gwaith. Addawodd y Clerc chwilio am lythyr, rai misoedd yn ôl, oddi wrth Wynedd ar y mater a danfon copi i Len Jones.
- Darllenodd lythyr y Rheolwr Rhawd Gymunedol Pete Willdigg ato, parthed Menter Dyffryn Peris. Mae bws (rhad) yn cludo plant o Ddeiniolen a Llanberis i Lanrug bob dydd Gwener i chwarae pêl-droed ar y cae bob tywydd, ac mae canolfan Llanrug ar agor iddynt bob nos Wener. Mae amryw o fusnesau Llanrug a Llanberis wedi cyfrannu'n hael mewn gwahanol ffyrdd at y gweithgareddau. Ceir y cae yn rhad gan Gyngor Gwynedd. Pwrpas y llythyr oedd gofyn am gyfraniad o £500 gan y Cyngor. Bellach mae pymtheg o wirfoddolwyr yn barod i redeg y gwahanol gynlluniau. Trafodwyd y cais yn fanwl a gwnaed y pwyntiau canlynol:

**Heb amheuaeth mae'r gwaith a wneir ar gyfer yr ieuenctid yn arbennig iawn ac yr oedd gwir ei angen.** Dywedodd Len Jones ei fod gant y cant y tu cefn i weithgareddau y Rheolwr, Pete Willdigg. Dywedodd hefyd bod Clwb Ieuenctid Deiniolen yn ailagor ar y 5ed o Fai.

Rhaid i'r Cyngor ystyried y Gymuned gyfan. Nid oes gweithgareddau cyffelyb, hyd yn hyn, ym mhentrefi eraill y gymuned. Byddai'n rhaid trafod â Chynghorau Llanberis a Llanrug cyn ystyried cyfraniad. Nid yw'n bolisi gan y Cyngor i ystyried cyfraniad i fudiad heb yn gyntaf dderbyn mantolen ariannol.

**Llythyr 'Coed Cadw'**
Mae cynllun ar waith i adolygu coed Tyddyn Badyn. Dywed y llythyr bod manylion y cynllun ar gael yn llyfrgell Dolgellau, ond yn ôl y Cyng Hefin Williams, y mae yn llyfrgell Bangor hefyd.

**Arsyllfa Wledig Cymru**
Derbyniwyd holiadur oddi wrth y mudiad mewn partneriaeth â Phrifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth. Gofynnwyd i'r Clerc ei gwblhau.

**Derbyniwyd Canllawiau'r Cynulliad i Lywodraeth leol ar fuddsoddi**
Addawodd y clerc gael golwg ar y papurau ac o bosibl gael gwybod beth yw adwaith Cynghorau eraill.

**Graffiti**
Dywedodd Len Jones bod yr Heddlu wedi dal rhai a fu'n gyfrifol am baentio graffiti ar Tŷ Elidir. Gofynnodd yr Heddlu iddo a fyddai eu gorfodi i'w lanhau yn ddigon o gosb? Glanhawyd y lle yn berffaith.

**Cyfarfodydd Cyhoeddus Eisteddfod Eryri**
Cysylltodd Mr Geraint Jones â Len Jones ac felly mae trefniadau Deiniolen/Clwt y Bont ar y gweill. Y Clerc i gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod ynglŷn â Dinorwig a Rhiwlas. Penderfynwyd derbyn cynnig Geraint Jones i ofyn i rywun o'r tu allan i'r Cyngor drefnu cyfarfod Bryn'refail.

**Cysgodfan Bws Bethel**
Dywedodd Huw P. Hughes bod y gysgodfan mewn cyflwr difrifol – graffiti drosti. Y Clerc i ofyn am bris glanhau i contractiwr Gwynedd.

**Cynllunio**
Derbyniwyd ateb Gwynedd ynglŷn â thai Helen Villa, Clwt y Bont – bod y llythyr ymgynghorol wedi ei ddanfon allan ar y 10ed o Fawrth a'r Cyfarfod Cynllunio ar y 7ed o Ebrill. Y 24ain o Fawrth yw'r dyddiad ar y llythyr. Dwyn sylw Gwynedd i hyn.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:
Ail –leoli ystafell symudol Parc Padarn, Llanberis;
Codi ffwrnais losgi coed Glan Dinorwig, Clwt y Bont;
Codi modurdy yn Ty'n y Clwt, Glasgoed, Penisa'rwaun.

Ceisiadau a wrthodwyd:
Adeiladu 4 tŷ, Helen Villa, Clwt y Bont;
Estyniad i godi modurdy, Tyddyn Difyr, Bethel.

**Llwybrau**
Ateb Gwynedd – gosodir giatiau mochyn lle mae'r rhwystrau yn Coed Bolyn Mawr.

**Torri Gwair**
Penderfynwyd ar ddau doriad fel arfer ar lwybrau Bethel.
Derbyniwyd pris Mr R.V. Williams am y gwaith ym Methel a phris Mr D.R. Webb am y gwaith ym Mhenisa'rwaun.
Nid oedd prisiau Rhiwlas a Deiniolen wedi eu derbyn. Rhoddwyd rhyddid i'r Clerc roi archeb i Mr Arwel Williams a Menter Fachwen os bydd eu prisiau'n rhesymol.
Llwybr Cae Hen Lôn i fyny am yr inclein, yn wlyb a mwdlyd (rhif 37 a 34) – adroddiad i Wynedd.

**Cyfrifon 2003/04**
Cymeradwywyd y cyfrifon a derbyniwyd y fantolen ariannol am y flwyddyn.

**Mater ychwanegol**
Dywedwyd bod tîm pêl-droed Bethel wedi ennill Cwpan Cyngrair Arfon. Penderfynwyd danfon gair i'w llongyfarch. Y Cadeirydd yw Mr Trefor Foulkes, Bodlondeb, Bethel.
Dyddiad y cyfarfod nesaf – 1af o Fehefin, Cyfarfod Blynyddol.

## DRAENOG

Mae sôn fod tri 'rhedwr' o Lanberis yn prysur ymarfer ar gyfer Ras yr Wyddfa. Un dull o wneud hynny yw cystadlu (am ddiffyg gair gwell i'w ddisgrifio) yn rasus nos Fawrth. Yn Ras Mynydd Mawr yn ddiweddar, cyrhaeddodd y tri y copa er gwaethaf y niwl trwchus, ond aeth yn nos arnynt wrth ddychwelyd, a gallwch ddychmygu'r syndod ar wyneb ffermwr o Ddrws y Coed pan agorodd y drws i dri crynedig a oedd yn chwilio am y llwybr yn ôl i'r Fron. Chwarae teg, cawsant frechdan gig moch ganddo a'u cario'n ôl i'r man cychwyn. Roedd hi fymryn yn well arnynt ar Foel Faban yr wythnos ddilynol – ond doedd dim brechdannau cig moch.

Mae si fod ffarmwr moch lleol yn bwriadu noddi Ras yr Wyddfa...

# O SIAMBAR SELWYN

Ganol y mis diwethaf fe glywsom am farwolaeth Yr Arglwydd Geraint o Bonterwyd. Mi ges i'r fraint o ddod i adnabod Geraint, nid drwy'r byd gwleidyddol, diolch i'r drefn, ond drwy'r byd eisteddodol.

Bob tro y byddwn i'n mynd ar fy hald i feirniadu i eisteddfodau yng Ngheredigion, gallwn fentro y byddai Geraint Howells yn bresennol yno. 'Roedd o'n grwydrwr eisteddfodau cefn gwlad, ac yn mwynhau mynd o gwmpas i wrando ar y cystadlaethau ac i gyfarfod â'r cystadleuwyr, a'u hannog i gofio dod i Eisteddfod Ponterwyd.

Cefais y fraint sawl tro o feirniadu yn ei eisteddfod. Ia, eisteddfod Geraint oedd Eisteddfod Ponterwyd, a gynhaliwyd bob blwyddyn ar y dydd Gwener ar ôl y Brifwyl. Fo oedd yr Ysgrifennydd, a bu wrth y gwaith am dros hanner canrif. Yn wir fo oedd Pwyllgor yr Eisteddfod. Haws o lawer yn ôl ei farn na chael pwyllgorau diflas i drafod am oriau.

Cael galwad ffôn fyddwn i tua chanol mis Mehefn, yn aml iawn o'r Tŷ Cyffredin. Dim gofyn a fyddwn i'n rhydd. O, na.

'Rwyt ti'n beirniadu'r adrodd a'r gwaith llên acw 'leni – y dydd Gwener ar ôl y Genedlaethol. Yr un trefniadau – dod draw acw i Glennydd. Ty'd a'r wraig hefo chdi, ac fe gewch ginio yma cyn mynd i'r Steddfod a fydd yn dechrau tua'r un o'r gloch. Mi fydda i'n taro'r testunau yn y post i ti.'

Dwi'n cofio y tro cynta i mi addo mynd yno, ac yn bryderus braidd o weld y dyddiad yn agosau a minnau heb dderbyn y cyfansoddiadau llenyddol. Rhoi galwad ffôn i Geraint rhag ofn bod y cyfansoddiadau wedi mynd ar goll yn y post. Yr eglurhad,

'Paid â phoeni dim, ma'n nhw yma'n un pentwr – fe cei di nhw ar ôl cyrraedd.'

Wrth ryw lwc doedd 'na ddim awdlau, pryddestau, storïau byrion nag ysgrifau i'w cloriannu, dim ond telynegion, englynion, brawddegau a limrigau. Tra roedd y cystadlaethau canu yn mynd ymlaen roeddwn i'n brysur yn ceisio dewis y goreuon yn y cystadlaethau llenyddol, ac roedd 'na nifer dda ohonyn nhw hefyd.

Roedd pob un o'r gwobrau ym mhob adran, yn rhoddedig gan garedigion yr eisteddfod a dyna'r rheswm bod un o amodau'r eisteddfod yn datgan, 'Caniateir i'r beirniad atal ond nid i rannu gwobr', ac roedd elw Eisteddfod Ponterwyd bob blwyddyn yn mynd at y Capel.

Mi fyddai'r Cyn-Archdderwydd W.J. Gruffydd (Elerydd), yn arfer dod â nifer o adroddwyr ifanc i'r eisteddfod ac fe gaed cystadlaethau o safon yno. Roeddwn yn siŵr o gyfarfod â Merêd yno bob blwyddyn hefyd. Er i mi deithio i sawl eisteddfod ledled Cymru, ychydig iawn o 'bwysigion' y Brifwyl dwi wedi ei weld yn ein heisteddfodau lleol. Ond eto, ar faes y Genedlaethol bob blwyddyn, fe'i gwelwch nhw hefo bathodynnau yn hongian at eu pennagliniau ac yn bwysig ryfeddol. Rwy'n siŵr bod 'na eisteddfod leol o fewn pymtheng milltir i bob un o aelodau Cyngor y Brifwyl.

Diolch am wir eisteddfodwyr fel y Dr Aled Lloyd Davies, a anrhydeddwyd fel Cymrawd diweddaraf yr Eisteddfod Genedlaethol, a diolch am rai fel yr Arglwydd Geraint o Bonterwyd.

Wrth sgwrsio uwch cinio yn Glennydd un flwyddyn y deallais i fod yr Arglwydd Geraint a minnau yn gefnogol i'r un tîm pêl-droed ers dyddiau ein plentyndod, ac am yr un rheswm hefyd. A'r tîm hwnnw? Wel, Sunderland o bawb. Pam? Wel, dyna'r tîm cynta i ni'n dau ei gofio yn ennill Cwpan Lloegr yn 1937, drwy drechu Preston North End o dair gôl i un. A choeliwch neu beidio, roeddan ni'n gallu cyd-lefaru enwau'r tîm hwnnw gyda'n gilydd fel *Rhodd Mam* – Mapson, Gorman Duns, Burbanks, Hastings, a'r gweddill, heb anghofio y seren, sef Raich neu Horatio Carter, a fu'n chwarae i Loegr droeon.

Na, fu'r Arglwydd Geraint na minnau erioed ar gyfyl yr hen Roker Park na'r cartre newydd, Stadiwm y Goleuni, ond o ddyddiau ein plentyndod roedd tîm Sunderland yn golygu rhywbeth i ni'n dau.

Ches i 'rioed y fraint na'r cyfle i bleidleisio i Geraint Howells yn ei etholiadau. Mi wnes innau sefyll etholiad unwaith a hynny ar gais nifer o selogion yr eisteddfodau lleol, a ofynnodd am ganiatad i fy enwebu ar gyfer y barchus swydd o fod yn Archdderwydd. Cytunais i'w cais ar y funud ola. Ymhen ychydig ddyddiau cefais alwad ffôn gan yr Arglwydd Geraint yn dymuno'n dda i mi, er y gwyddwn o'r cychwyn na fyddai gobaith gennyf i gael fy ethol, ond gallwn ymfalchio yn y ffaith fod y gwleidydd a'r gwerinwr a'r eisteddfodwr o Bonterwyd wedi rhoi ei bleidlais i mi.

Na, dim am ein bod ni'n dau yn gefnogol i dîm pêl-droed Sunderland y cefais ei bleidlais, ond am ein bod ni'n dau yn eisteddfodwyr.

Do, fe gafodd nifer o eisteddfodwyr selog o Fro'r Eco, fel Mabon, Myra Turner, Katie Wyn a'r diweddar Wmffra groeso cynnes sawl tro yn Eisteddfod Geraint Howells hefyd.

## UN FUNUD FACH

### Y GWIR

'Mae'n rhaid i mi ddweud y gwir, ac mae'r gwir yn hynod o bwerus.' Gyda'r geiriau hynny yr oedd yr actor a'r cynhyrchydd ffilmiau, Kenneth Griffith, yn y *Daily Post* y diwrnod o'r blaen yn amddiffyn ei ffilmiau dogfennol sy'n trafod yr helyntion gwleidyddol yn Iwerddon. Gwaharddwyd dangos mwy nag un o'i ffilmiau ym Mhrydain dros y blynyddoedd, ond mae Kenneth Griffith yn ddiedifar am ei fod yn argyhoeddedig mai'r hyn a wnaeth oedd dweud y gwir am wleidyddiaeth Iwerddon.

Mae cymhellion Griffith yn glodwiw dros ben. Mae'n mynnu bod y gwir yn bwysig, a bod raid ei gyhoeddi. Mae canfod y gwir yn eithriadol o bwysig. Ac mae Griffith yn iawn hefyd pan ddywed bod y gwir yn bwerus. Mae'r gwir yn aml yn brifo, ond mae wynebu'r gwir a gweithredu arno yn gallu dwyn daioni mawr.

Ond trueni na fyddai Griffith yr un mor awyddus i 'ddweud y gwir' am grefydd ag ydyw am wleidyddiaeth yr Ynys Werdd. Yn yr un erthygl cafwyd y frawddeg ysgubol hon ganddo, 'Ni ellir dychmygu dau ddrygioni gwaeth nag Islam a Christnogaeth.' Ond dyw hi'n rhyfedd fel mae lladmerydd huawdl y gwirionedd mwya sydyn yn gallu palu celwydd? Caiff rhywun arall amddiffyn Islam, ond glywsoch chi rywbeth mwy hurt erioed na'r honiad hwn bod Cristnogaeth yn 'ddrygioni mawr'? Sut all Ffydd sy'n cyhoeddi cariad, maddeuant, gras, cymod a thrugaredd, ac sy'n cynnig bywyd tragwyddol i bwy bynnag a ddaw at Iesu Grist, fod yn 'ddrygioni mwya'r byd'?

Mae Kenneth Griffith, fel llawer o bobl eraill, yn uniaethu'r 'gwir' â'i ragfarn personol ei hunan. Mae'n cymryd arno'i hun i benderfynu beth yw'r gwirionedd. Gan sylwi, mae'n debyg, ar y drygioni a wneir gan rai Cristnogion ac ar y modd y cafodd y Ffydd ei chamddefnyddio gan rai dros y blynyddoedd, mae'n collfarnu'r Ffydd ei hunan. Ond i'r Cristion, y Ffydd Gristnogol yw'r dylanwad a'r grym mwyaf pwerus a bendithiol a gafodd y byd am ei bod yn cynnig yr Arglwydd Iesu Grist yn Waredwr i fyd colledig, cythryblus. Mae pob Cristion yn gwybod mai dyna'r gwir am iddo gael ei argyhoeddi mai Iesu Grist ei hun yw'r 'gwirionedd'. Mae'r hyn a wnaeth a'r hyn a ddywedodd Iesu Grist yn dangos i ni'r ffordd at Dduw a'r ffordd i fyw. Ac os ydym yn credu hynny mae arnom gyfrifoldeb i fod yn dystion cywir i'r gras a'r cariad sydd yn Iesu Grist, fel na fydd modd i Kenneth Griffith a'i debyg gamfarnu'r Ffydd werthfawrocaf hon.

JOHN PRITCHARD


CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

H. E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444



• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR
Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**
Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**
Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Ar nos Sul, 25 Ebrill, yng Nghapel Cefnywaun, clywsom un o blant yr ardal yn pregethu, sef y Parch Alan Wyn Roberts, Tan y Fron, sydd erbyn hyn yn byw ar Ynys Môn. Nid oeddwn wedi cael y fraint o wrando arno ers blynyddoedd.

Yr wyf yn cofio pregeth gyntaf Alan yma yn Ninorwig, yn y flwyddyn 1951 a minnau yn fy arddegau cynnar. Ei destun ydoedd: 'Wele wrth y drws yn curo.' Mae'n rhaid imi ddweud nad oeddwn yn deall pwy oedd yn curo a chofiaf yn dda gofyn i mam ar ôl yr oedfa, 'Pwy oedd wrth y drws?' ac iddi hithau esbonio y bregeth imi. Mae wedi aros hefo fi hyd heddiw.

SUL Y BEIBLAU. Cynhelir Gwasanaeth Sul y Beiblau, bnawn Sul, 27 Mehefin am 5.30 o'r gloch yn Eglwys Santes Helen. Gwneir casgliad at y Gymdeithas. Llywyddir gan y Ficer Ann Smitham a Huw Tegid. Bydd bws yn cychwyn o Ddinorwig am 5.00 a chodi trigolion Deiniolen a Chlwt y bont. Croeso cynnes i bawb.

CYFARFOD PREGETHU SARDIS Cynhelir Cyrddau Pregethu'r Sulgwyn yn Sardis ar 30 Mai. Pregethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchedig Gwyn Erfyl, Caernarfon, ac am 5.30 o'r gloch y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Iwan Llewelyn Jones, Borth y Gest. Croeso cynnes i'r oedfaon.

CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch i bawb a roddodd arian mewn amlen at Gymorth Cristnogol i mi. Diolch yn fawr iawn.

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN. Cynhaliwyd y Gymanfa ar y Sul cyntaf o Fai yng Nghapel Coch. Cafwyd dwy oedfa arbennig iawn ond, yma yn Ninorwig, nid oedd un plentyn wedi trio yr arholiad oherwydd ein bod fel ardal wedi colli un arbennig iawn, sef Mrs Katie Lloyd Hughes. Mae hi erbyn hyn yn y cartref ym Mron Eryri ac y mae'n gadael bwlch mawr. Roedd hi bob amser yn mwynhau dysgu'r plant, a'r plant wrth eu bodd hefo hi. Diolch am ei gwasnaeth yn y capel ar hyd y blynyddoedd. Mae wedi gadael bwlch na fydd modd ei lenwi.

Diolch i'r Gymanfa am anfon te iddi ac hefyd dusw o flodau. Yr oedd yn ddiolchgar iawn ohonynt. Anfonwn ein cofion fel ardal ati a llawer iawn o ddiolch.

CLWB ORWIG. Yn eu cyfarfod ar 6 Mai cafodd aelodau'r clwb gip yn ôl i ddyddiau eu plentyndod yng nghwmni Marga Bee o Lanberis, a ddaeth yno i arddangos ei chasgliad helaeth o dai doliau. Mae hi eisoes wedi cynnal arddangosfa, a oedd yn rhan o gynnyrch Clwb Tai Doliau Llanberis yn y Mynydd Gwefru. Diolchwyd yn gynnes iddi gan yr ysgrifennydd, Ray Bower.

Llongyfarchwyd aelodau'r tîm a fu'n cystadlu yng nghwis *Age Concern* yng Nghaernarfon, ar ennill eu lle yn y gystadleuaeth derfynnol. Yr aelodau oedd John Cantrell, Margaret Faulkener, Joan Glass a Terry Taylor. Rhoddwyd y te a'r rhoddion at y raffl gan Betty Lloyd Roberts a Betty Roberts. Yr enillwyr oedd Betty Ann Jones, Betty Ll. Roberts, Ann Lo, Betty Roberts a Marga Bee. Rhoddwyd y bara brith ar gyfer y te gan Fecws Morris, Cwm y Glo.

## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

PWYLLGOR BETWS GARMON EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON A'R CYLCH 1979
Un o'r pwyllgorau cyntaf i gyrraedd y nod.

*(Cefn o'r chwith):* Wmffra Jones, Tŷ Coch; John Williams, Cerrig-y-rhyd; Glenys Williams, Ty'n y Weirglodd; Rhys Williams, Y Post; Now Pritchard, Plas Isa; Nellie Williams, Cerrig-y-rhyd; Rhian Evans, Tŷ Capel a Brenda Jones, Bryn Tegid.

Dim ond Glenys Williams sy'n dal i fyw yn y Betws gyda Rhian a Brenda yn y Waunfawr. Mae'r pump arall wedi'n gadael, yn anffodus.

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr mis Ebrill: £40: Cadi Jones, Nant; £25: A. Thomas, Gilfach; £10: Mr Ronald Williams, 18 Bro Waun.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar bnawn Iau, 1 Ebrill, yn Festri Eglwys y Waun, cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, y gŵr gwadd, sef Dr Hugh Roberts o'r Feddygfa, Waunfawr. Cafwyd sgwrs ddifyr a chartrefol iawn ganddo am y gwelliannau sydd wedi deillio ers pan ddaeth y Gwasanaeth Iechyd i fod. Bu cryn drafod ar amryw o gwestiynau.

Yn ôl Dr Roberts, roedd o wedi mwynhau'r cyfarfod cystal â'r aelodau! Diolchodd y Llywydd i Dr Roberts. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Betty Griffith, gan Mair Williams.

* * *

Yn Festri Eglwys y Waun ar bnawn Iau, 6 Mai, cynhaliwyd cyfarfod y mis o'r Sefydliad. Cydymdeimlodd y Llywydd, Catherine Jones, â Wenna Edwards, ar golli ei chwaer, Greta, yng Nghaernarfon. Croesawodd y Llywydd Pat Parry, Cynghorwr Sefydliad y Merched, i egluro'r penderfyniadau sydd i'w trafod yn y Cyfarfod Blynyddol yn Birmingham ym mis Mehefin. Pasiwyd yn unfrydol i gefnogi'r holl benderfyniadau. Diolchwyd i Pat gan y Llywydd am roi trosodd faterion mor drwm mewn ffordd mor glir. Enillwyd y raffl, wedi ei roi gan Mair Williams, gan Alice Johnston.

CLWB BOWLIO. Nos Sadwrn, 15 Mai, cynhaliwyd cinio'r Clwb yng Ngwesty Gwêl y Llyn, Llanberis. Noson i gyflwyno'r enillwyr yn y gwahanol gystadlaethau oedd hon. Rhoddodd Emyr Evans ychydig o hanes y flwyddyn a diolchodd i Anne Williams am drefnu'r noson. Dyma restr o'r enillwyr:

Tarian er cof am T.A. Thomas: 1af – Huw Roberts; 2il – Dafydd Price.

Enillydd y cwpan i ferched (wedi ei noddi gan Fodurdy Pant Waun) 1af – Pearl Williams; 2il – Anne Williams.

Cyflwynwyd gan Fred Buckley.

Enillydd y cwpan i ddau (wedi ei noddi gan Fodurdy Gwalia, Caeathro): 1af – Emyr Evans a Garym Thompson; 2il – Anne Williams a Sion Jones. Cyflwynwyd y cwpan gan Catherine Jones.

Cafwyd noson ddifyr a bwyd da, a phawb wedi mwynhau eu hunain.

DYMUNO'N DDA. A hithau yn ddiwedd Mai arall, daeth yn gyfnod yr arholiadau yn yr ysgolion a'r colegau. Dymunwn yn dda i bob un sy'n sefyll y gwahanol arholiadau.

*(Parhad ar dudalen 12)*




# Y SEINDORF

Ar nos Wener, 23 Ebrill, cafodd Band Deiniolen noson hynod o lwyddiannus yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, am nifer o resymau. Dyma oedd Cyngerdd Blynyddol cyntaf arweinydd y band, Waynne Williams, a braf iawn oedd cael ei wobrwyo gyda Tharian Goffa Mr R. John Childs. Roedd yn arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad y Band a'r Pwyllgor i Waynne am ei waith caled a'i frwdfrydedd gyda'r Band ers iddo ymuno â hwy ym mis Medi 2003.

Roedd gweddill gwobrwyon y Seindorf yn cael eu cyflwyno hefyd: 'Chwaraewr y Flwyddyn' oedd Hefin G. Jones ac aeth y wobr i'r 'Chwaraewr a ddatblygodd fwyaf yn ystod y flwyddyn i Elin Morris. Roedd tarian y 'band bach' yn cael ei chyflwyno hefyd. Enillydd Tarian Goffa Mr a Mrs O.H. Jones eleni oedd Liam. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Hoffai trefnwyr y cyngerdd ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson. Cafodd y dorf wledd o adloniant gan artistiaid gorau'r ardal a braf iawn oedd gweld cynifer o ieuenctid oedd yn cymryd rhan yn y Cyngerdd. Roedd cyfanswm o tua 70 o aelodau'r Seindorf yn perfformio – gyda dim ond 14 o'r rhain dros 30 mlwydd oed – felly mae'n glir fod dyfodol y Band yn saff yn nwylo'r ieuenctid!

Yn ystod y cyngerdd cafwyd gwobrwyo go arbennig hefyd. Mae hi bellach yn 30 mlynedd ers i Mr Meirion Jones a Mr Hefin G. Jones gychwyn yn eu swyddi fel Ysgrifennydd a Thrysorydd. Teimlad pawb sy'n gysylltiedig â'r band oedd y dylai'r ddau dderbyn rhodd fel arwydd o'u gwasanaeth gwerthfawr dros yr holl flynyddoedd. Gwnaed casgliad ac fe brynwyd oriawr boced i'r ddau ohonynt, gyda'r negeseuon canlynol wedi'u torri ar gefn yr oriawr

*Cyflwynwyd i Hefin G. Jones, Ebrill 2004, fel arwydd o ddiolch a chydnabyddiaeth am dros 30 mlynedd o wasanaeth di-dor fel Trysorydd Band Deiniolen.*

* * *

*Cyflwynwyd i Meirion Jones, Ebrill 2004, fel arwydd o ddiolch a chydnabyddiaeth am dros 30 mlynedd o wasanaeth di-dor fel Ysgrifennydd Band Deiniolen.*

Gofynnwyd i'r Prifardd John Pritchard gyfansoddi englyn ar gyfer yr achlysur:

Rhoi'r ardal ar bob dalen – a wnaethant
I'r eithaf yn llawen;
Dau yn hael i'w Deiniolen
O wneud eu gwaith gyda gwên.

*Y Prifardd David John Pritchard*

Cafwyd noson fythgofiadwy nos Sadwrn, 24 Ebrill, yng Ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy i dalu teyrnged i Meirion a Hefin. Noson ddifyr iawn yn edrych yn ôl ar hanes y band, ynghyd â llawer o dynnu coes! Cewch weld lluniau'r noson arbennig, ynghyd â lluniau'r gwobrwyo ar safle we y Band: http://www.deiniolenband.org.uk

Hoffai'r Pwyllgor a'r Band ddiolch o galon i Meirion a Hefin am eu holl waith dros y blynyddoedd, ac am y blynyddoedd o waith sydd i ddod.


**GWERSI PIANO A CHANU**

Sharon V. Williams B.A.
Pentir
(01248) 353746


## Oedolion am Chwysu!

Fel rhan o weithgareddau codi arian at Eisteddfod Eryri 2005, mae Pwyllgor Bethel am drefnu cystadleuaeth 6-bob-ochr pêl-droed i OEDOLION (dros 15 oed). Cynhelir y gystadleuaeth ar nos Fercher, 23 Mehefin am 6.30 ar faes pêl-droed clwb iau Bethel.

Beth am fynd i'r garej i chwilio am yr hen esgidiau neu i JJB Sports am shorts *flashy* i ddangos / guddio y bol?

Cynhaliwyd cystadleuaeth debyg rhyw 8 mlynedd yn ôl a chafwyd noson hwyliog a chefnogaeth dda. Mae pen gliniau rhai yn dal i wichian. Gellir cael ffurflenni gan RLJ, a'r gost yw £10 y tîm.

## Gobaith am y Dyfodol

Braf oedd cofnodi fod dwy ysgol 'leol' – Brynrefail a Syr Hugh Owen – wedi cyrraedd rowndiau terfynol Cwpanau Cymru. Brynrefs i dimau -16 a Syr Hugh i dimau -12. Roedd y Cofis yn llwyddiannus draw yn y Barri, ac roedd Brynrefail yn hynod o anffodus i golli ar giciau o'r smotyn yn erbyn Ysgol Darland, cylch Wrecsam.

Llongyfarchiadau i'r athrawon sy'n gyfrifol am y timau – Phill Holland a Meilir Owen – ac hefyd i'r llu o hyfforddwyr lleol sy'n chwarae eu rhan. Rwy'n siŵr ei fod yn galondid i'r bobl hyn i weld y dyrfa dda ddaeth i Eithin Duon i gefnogi. I'r sawl sydd yn poeni fod Addysg Gorfforol yn mynd yn fwy o bwnc 'academaidd' ar drael y gêmau traddodiadol, mae'r canlyniadau yma yn cadarnhau pwysigrwydd gêmau yn y cadarnleoedd hyn.

## CYMANFA YSGOLION SUL CYLCH PADARN

Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Cylch Padarn yng Nghapel Coch, Llanberis pnawn a nos Sul, Mai 2il, 2004. Arweinydd y Gân oedd Mrs Lowri Prys Roberts Williams, Brynrefail ac yn cyfeilio roedd Mrs Bethan Holding, Capel Coch yng nghyfarfod y pnawn a Mr Gareth Jones, Capel Coch yn yr hwyr. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol y pnawn a'r hwyr gan blant a phobl ifanc Ysgol Sul Capel Coch.

Bu'r canlynol yn llwyddianus yn y maes llafur:

*Dan 4 oed:* Iwan Price, Aled Pritchard, Jessica Williams, Alaw Eleri Henderson, Capel Coch; Gwenllian Lois Morris, Cysegr; Gerwyn Llwyd Jones, Deiniolen

*Dan 5 oed:* Megan Pritchard, Elin Roberts, Alaw Saynor, Capel Coch; Harri Gwyn Evans, Gwion John, Gruffudd Owen, Gwion Wyn Jones, Lisa Haf Hughes, Heledd Alaw Morris, Cysegr.

*Dan 6 oed:* Lois Angharad Williams, Capel Coch; Rhydian Owen Price, Gethin Wyn Harper, Alaw Prys Huws, Richard Alwyn Evans, Elliw Lewis Jones, Cysegr; Emma Tong, Steffan Robin Jones, Catrin Llywelyn Griffith, Deiniolen.

*Dan 7 oed:* Ashley Evans, Elliw Saynor, Amanda Williams, Amy Louise Jones, Gareth Pritchard, Capel Coch; Lee Arwel Williams, Llyr Garmon Jones, Catrin Ellen Jones, Alice Williams, Deiniolen.

*Dan 8 oed:* Elin Tomos, Sion Roberts, Adam Jones, Capel Coch; Iolo Rhys Hughes, Guto Sion Griffiths, Iwan Huw Harper, Cysegr.

*Dan 9 oed:* Tudur Williams, Deiniolen; Lowri Ann Griffith, Cysegr; Dylan Roberts, Rhiannon Davies, Amy Williams, Deiniolen.

*Dan 10 oed:* Elin Owen, Bronwen Lydia Price, Manon Elwyn Hughes, Gethin Wyn Griffiths, Gerallt Jones, Richard Caulcott, Gruffudd John, Cysegr.

*Dan 11 oed:* Robert Holding, Capel Coch.

*Dan 12 oed:* Sioned Owen, Cysegr

*Oedolion:* Miss Dilys Mai Roberts, Mr Bert Parry, Mr John Hugh Hughes, Mrs Mattie Hughes, Mrs Bethan Holding, Mrs Falmai Pritchard, Mrs Valerie Jones, Mr Gareth Jones, a Dafydd Sion Pritchard, Capel Coch; Mrs Nan Owen, Mrs Nancy Williams, Mrs Elizabeth E. Evans, Mrs Myfanwy Harper, Mrs Rita D. Williams, Mrs Ceinwen Williams, Mrs Glenys Griffith, Mrs Nora Parry a Mrs Edwina Morris, Cysegr; Mrs Margaret Cynfi Griffith, Miss Marian Jones, Mrs Jane Thorman Jones, Miss Jean Parc Jones, Deiniolen.

Carai'r pwyllgor ddiolch i swyddogion ac aelodau Capel Coch, Llanberis am eu cymorth i drefnu'r Gymanfa, am eu croeso ac am y te ardderchog. I bawb a gefnogodd y ddau gyfarfod. Diolch arbennig i Mrs Lowri Prys Roberts Williams am arwain y Gymanfa ac i Mrs Bethan Holding a Mr Gareth Jones am gyfeilio. Hefyd gwerthfawrogir cyfraniad Mr Bert Parry a Mr Cledwyn Parry, a fu'n llywyddu'r cyfarfodydd.


Brian a Rita Henderson

**SIOP Y PENTREF**

WAUNFAWR
Ffôn: **650589**

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid – 'bulk' a rhydd – y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

**SNOWDONIA PARC**

**WAUNFAWR**

**•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant**
**• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol**
**• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn**

**Ffôn: 650218**

## Atodiad **Waunfawr**

*(Parhad o dudalen 10)*

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Llywela a Dafydd Davies, Stad Tref Eilian a fu'n dathlu eu Priodas Berl yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD. Dymunwn ben-blwydd hapus yn 93 oed i Miss Katie Roberts, Stad Tref Eilian, ar Fehefin y cyntaf.

ENNILL GRADD. Llongyfarchiadau i Tecwyn Evans, Tremallt ar ennill Gradd BSc y Brifysgol Agored.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i Mrs Griffith, Stad Croesywaun; Mr Richard Owen, Stad Bro Waun a Mr Emyr Evans, Caer Ffynnon.

Da gweld bod Mr Doug Jones, Bron Eifion yn gwella ar ôl cael triniaeth i'w droed.

Anfonwn ein cofion at Miss Rhian Rowlands, Bro Waun a Mr Cotton (Post gynt) sydd wedi mynd i aros i gartref preswyl am gyfnod.

CROESO ADREF o Ysbyty Gobowen i Trefor Beech, Bronallt, a da ei weld yn troi allan, gyda gofal mawr.

Croeso adref hefyd i Mr Robin Roberts, Bryn Golau, wedi iddo orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Wenna Edwards, Capri, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer o Gaernarfon.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Mrs Samantha Pritchard, Y Ganolfan Garpedi yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

DIOLCH. Dymuna Iona Williams, Garreg Fawr, ddiolch am y gefnogaeth a dderbyniodd pan redodd Farathon Llundain ac i bawb â'i noddodd i gasglu arian tuag at Gofal Cancr y Fron.

DIOLCH. Dymuna Mrs Alice Hughes, 3 Bryn Golau a Rita, Margaret a Pat a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a hen daid annwyl iawn.

BBQ. Ar nos Sadwrn, 3 Gorffennaf bydd BBQ o dan do yn Glanrafon (ar y ffordd i Gaernarfon) i godi arian at gostau'r Ganolfan newydd yng Nghaeathro. Bydd Dylan a Neil yn canu, raffl fawr, bar trwyddedig rhwng 7.30 a 12.30 a BBQ i lenwi'r bol. Ticedi ar y noson neu ymlaen llaw gan aelodau'r Pwyllgor.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Gellir dychwelyd ffurflenni rhodd i Apêl Waunfawr naill ai yn ôl i'r dosbarthydd lleol neu yn uniongyrchol i Swyddfa'r Eisteddfod, Pendeits, Caernarfon.



*Pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979, y cyfeirir ato ar ddechrau colofn Waunfawr ar dudalen 10.*


**antur WAUNFAWR**

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau **nwyddau trydanol**, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

ANTUR WAUNFAWR

☎ 01286 674 155

www.anturwaunfawr.org

**B-J-GLAZING**

**Penisarwaun**

Gwydro a Thrwsio Ffenestri

(rhan o fusnes teulu a fu'n gosod gwydr a ffenestri am dros 80 mlynedd)

- Trwsio a newid ffenestri
- Trin unedau gwydr dwbl lle mae'r sêl wedi torri neu yn niwlog
- Dŵr yn treiddio neu ddrafft
- Cloeau a *hinges* ddim yn gweithio'n iawn
- Amcangyfrif a chyngor yn ddi-dâl
- Gwasanaeth gwydro 24 awr

Ffôn **07984 354783**


# YSGOL BRYNREFAIL

## Cofnodi Cyrhaeddiad

Cyflwynodd Cadeirydd y Llywodraethwyr Mrs Ann Pritchard Jones Gofnod Cyrhaeddiad i ddisgyblion bl 11a dymunodd yn dda iddynt yn yr arholiadau TGAU a'u dyfodol.

Cafodd y disgyblion brynhawn hwyliog yn sgwrsio gyda'r staff a mwynhau paned a lluniaeth ysgafn gyda'u cyd fyfyrwyr.


Pob lwc i bawb o ddisgyblion blynyddoedd 11, 12 a 13 yn yr arholiadau allanol.

## Cinio Heb Sglods

Cafwyd cais gan y disgyblion i fwyta'n iachach, ac felly rydym yn cael ambell amser cinio lle nad oes sglods ar gael. Wrth gwrs, mae hyn yn iachach a pheth braf yw gweld bod ein disgyblion ym cymryd y neges i fwyta'n iach o ddifrif.

## Arholiadau Ymarferol

Pawb yn brysur iawn yn gorffen gwaith cwrs, arholiadau llafar, ac wrth gwrs, y gwaith ymarferol. Dyma rai o grefftwyr y dyfodol efallai!!



## Mark Ward

Daeth newyddion brawychus bod un o ddisgyblion bl 11, Mark Ward o Ddeiniolen, wedi bod mewn damwain ddifrifol iawn. Mae bellach yn Ysbyty Gobowen ger Amwythig ac mae ein dymuniadau gorau yn mynd ato ef a'r teulu.

Mae ei ffrindiau wedi bod yn brysur yn anfon cardiau ac yn ymweld ag ef, a theimlad ei gyd-ddisgyblion oedd y dylent wneud rhywbeth i helpu'r teulu. Felly penderfynwyd cael diwrnod di-wisg Ysgol, gêm bêl-droed rhwng yr athrawon a'r tîm dan 16. Cafwyd hwyl wrth weld yr athrawon yn 'stryglo' a cholli i'r bechgyn! Ond roedd yn werth pob ceiniog a godwyd. Swm anrhydeddus iawn o £750.00 sydd wedi ei gyflwyno i'r teulu i'w helpu drwy'r amser anodd iawn fydd o'u blaen.Diolch i'r disgyblion a'r staff am eu haelioni.

Bydd Mark hefyd, rwy'n siŵr, yn gwerthfawrogi yr oergell i roi yn ystafell wely, a brynwyd iddo gan yr Ysgol.

Pob dymuniad da Mark, mae pawb yn meddwl amdanat.

## Cwpan Cymru dan 16

**Rownd Derfynol**
**Ysgol Brynrefail v Ysgol Darland (Wrecsam)**

Denwyd torf niferus i gae Eithin Duon i weld gêm gyffrous rhwng dau dîm eithaf cyfartal. Gyda thîm dan 12 Ysgol Syr Hugh wedi cipio y gwpan gyfatebol i'w hoedran dyma gyfle, am y tro cyntaf, i ddwy gwpan cenedlaethol ddod i Eryri yn yr un tymor.

Cafwyd gêm llawn digwyddiad gyda'r bêl yn tasgu o un gôl i'r llall.

Wedi deng munud edrychai pethau'n ddrwg, gyda'r ymwelwyr ddwy gôl ar y blaen. Ond dangosodd Brynrefs gryn gymeriad drwy sgorio tair gôl drwy Guto Llywelyn, Steven Davies a Gareth Jones.

Roedd y gwpan o fewn eu gafael ond, a phrin dri munud yn weddill, unionodd Darland y sgôr 3-3.

Rhaid felly oedd chwarae amser ychwanegol ac er sawl hanner cyfle ni chafwyd mwy o goliau.

Wedi'r fath gêm roedd y ddau hyfforddwr yn fodlon i'r ddwy Ysgol ddal y gwpan am chwe mis yr un ond nid oedd hyn yn dderbyniol i'r Schools' FA a rhaid oedd penderfynu tynged y ddau dîm drwy giciau o'r smotyn.

Roedd yr awyrgylch yn drydanol ac ar y noson Ysgol Darland aeth a hi o 5-2

Gall hogia Brynrefs, dan arweiniad Mr Holland, ymfalchïo eu bod wedi cynrychioli yr Ysgol a'r ardal â chryn falchder.

Hoffai'r Ysgol ddiolch i Glwb Pêl-droed Llanrug am eu parodrwydd i wneud defnydd o'r cae.

***Sylwadau chwaraewyr a chefnogwyr ar Y Gêm***

Trwy gydol y tymor rydym wedi chwarae llawer o gêmau anodd ac rwyf yn falch o fod wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Cymru.

Roeddwn yn teimlo yn nerfus cyn y gêm, gan ei bod yn neilltuol o bwysig i'r tîm. Hon oedd y gêm galetaf oeddem wedi ei chwarae yn y gwpan.

Pan ddechreuodd y gêm roeddem yn araf yn rhoi pwysau ar y tîm arall gan iddynt fynd ar y blaen. Unwaith eto, amddiffyn blêr ddaeth a'r ail gol iddynt ond tarodd Brynrefs yn ôl.

Yn yr ail hanner dechreusom fel gwahanol dîm, gyda hyder yn ein chwarae a Brynrefail yn taro unwaith eto gan wneud y sgôr yn 2-2, yna sgoriwyd eto i fod ar y blaen am y tro cyntaf yn y gêm.

Ond diffyg amddiffyn oedd hanes y tîm eto, ac aeth yn 3-3. Felly roedd rhaid chwarae amser ychwanegol. Yn y pen draw roedd rhaid penderfynu'r gêm gyda chiciau o'r smotyn, felly oherwydd mai fi oedd y gôl-geidwad roeddwn yn nerfus!

Pan oedd y chwaraewyr eraill yn sefyll i fyny am y gic roeddwn yn gobeithio y byddent yn methu, ond bob clod iddynt am gadw eu nerfau i ennill, ac anlwcus i'r rhai a fethodd i Brynrefs.

Diolch i bawb a drefnodd ac a gymrodd ran yn y gêm ac i'r cefnogwyr am fod tu ôl i ni a'n cadw i fynd trwy gydol y gêm.

*Iwan Machno Lloyd*

Roedd pawb yn ein tîm wedi chwarae eu gorau glas. Rydw i wedi fy siomi yn arw gyda ein canlyniad, ond chwarae teg i'r tîm o Wrecsam, fe chwaraeon yn wych. Roedd y ddau dîm yn debyg o ran eu gallu, dyna pam oedda ni yn y ffeinal.

Mwynheais y gêm ac rydw i'n falch gyda pherfformiad y tîm trwy'r gystadleuaeth gyfan. Da iawn hogia!!!

*Joseph Simpson*

* * *

Yr oeddwn yn edrych ymlaen am gêm gyffrous a doeddwn heb gael fy siomi. Pan aeth y tîm 2–0 i lawr roedd pawb yn meddwl bod y tîm yn mynd i gael eu chwalu, ond gôl gan Gareth a Steven ac roedd pawb yn ôl tu ôl i'r tîm. Pan sgoriodd Guto fe aeth y dorf yn wallgo. Ond sgoriwyd gan yr ochr arall yn y munudau olaf i fynd â'r gêm i giciau o'r smotyn, a cholli!

Roedd yn siom fawr i weld yr hogiau yn colli, ond da iawn am gyrraedd y rownd derfynol.

*Colin Roberts*

* * *

Trwy'r gystadleuaeth i gyd roedd rhaid chwarae llawer o gêmau anodd ac rydym wedi gwneud yn dda iawn i gyrraedd y ffeinal.

Cyn i'r gêm fawr ddechrau roeddwn yn teimlo'n nerfus iawn. Dechreuom yn araf ac yn chwarae yn wael, ond wedi dod i'r gêm rwy'n meddwl mai ni oedd y tîm gorau. Chwaraeodd pawb yn dda gyda chalon dda, ond biti bod rhaid i'r gêm gael ei phenderfynu gan giciau o'r smotyn yn y diwedd.

Ar ôl colli mae'n dipyn o siom ond rhaid rhoi clod i'r tîm arall am gadw eu nerfau i ennill. Biti ein bod wedi methu y ddwy gic gan fy mod yn barod i gymryd y gic olaf.

Buaswn yn hoffi dweud diolch i bawb a drefnodd y gêm a diolch yn fawr iawn i'r cefnogwyr.

*Gareth Jones*

## Pêl-Rwyd bl 7

Cynhaliwyd y twrnament yn Ysgol Friars, Bangor, ac yn y gêm gyntaf 1–1 oedd y sgôr yn erbyn Llangefni.

Yn yr ail gêm yn erbyn St Gerards cafwyd gêm galed iawn ond Brynrefs ddaeth i'r brig: 3–1oedd y sgôr terfynol.

Ysgol David Hughes oedd y trydydd gwrthwynebydd ac erbyn hyn roedd y tîm yn cyd-chwarae'n dda. Llwyddiant eto 2–0 i Brynrefs.

Yn y bedwaredd gêm yn erbyn Ysgol Friars roedd y tîm yn chwarae'n fendigedig a'r sgôr terfynol: 5–0 i Frynrefail.

Twrnament llwyddiannus iawn gyda Brynrefail a Llangefni yn cael yr un faint o bwyntiau, ac felly yn rhannu'r safle cyntaf. Ardderchog!!

**Mae'n braf nodi hefyd bod y tîm yma wedi llwyddo trwy'r flwyddyn ac wedi ennill pob un o'u 8 gêm. Tipyn o gamp. Daliwch ati genod.**

## Cymeriadau Grease

Bob mis, byddwn yn canolbwyntio ar ddau o brif gymeriadau'r sioe. Y mis yma, cawn gyfle i gael gair gyda'r ddau brif gymeriad, sef Sandy – Elin Mai Jones o Flwyddyn 11, a Danny – Huw Foulkes o Flwyddyn 12.

### *Danny – Huw Foulkes*

**1.Pa gymeriad wyt ti'n ei chwarae?**
Danny

**2.Sut gymeriad ydy o/hi?**
Arweinydd y gang ac sy'n sicr yn ddylanwadol. Mae dwy ochr i gymeriad Danny – y cymeriad arwynebol o flaen y gang a'r cymeriad emosiynol yng nghwmni Sandy.

**3.Wyt ti'n debyg i'r cymeriad yma mewn unrhyw ffordd?**
Go brin!! Ond mae hynny, wrth gwrs, yn rhan o'r sialens!!

**4.Wyt ti wedi selio dy gymeriad ar rywun penodol?**
Rydw i am drio creu cymeriad gwreiddiol, gwahanol ond mae'n siŵr mai ar bortread John Travolta y byddaf yn selio fy nghymeriad i.

**5.Sut wyt ti'n teimlo am y sioe?**
A minnau yng nghanol arholiadau AS, dwi'n gobeithio y bydd hyn yn creu rhywbeth ysgafn a hwyliog i dorri ar yr adolygu!!

**6.Beth wyt ti'n bryderus yn ei gylch?**
Fy mhryder pennaf yw sut fydd ymateb y gynulleidfa, ac os gallaf greu cymeriad realtistig a chredadwy.

**7.Beth yw'r peth gorau am wneud sioe fel hyn?**
Y ffaith fod pawb yn cydweithio â'i gilydd tra'n cael hwyl ar yr un pryd.

**8.Beth yw dy hoff olygfa?**
Yn bersonol, yr olygfa sy'n cynnig ei hun orau yw'r olygfa olaf ble mae pawb yn dygymod â'i gilydd a phawb yn paratoi ar gyfer y diweddglo hapus.

**9.Beth yw dy hoff gân?**
Efallai mai'r dewis amlwg fyddai 'Greased Lightning' ond rydw i hefyd yn hoff o gân Doodie, 'Y Nodau Hudol'!!

**10.Pam ddylai'r cyhoedd ddod i weld y sioe?**
Yn sicr, bydd y sioe yn rhoi cyfle i ni fel actorion a pherfformwyr ifanc i arddangos ein sgiliau drwy actio, canu a chydweithio. Yr hyn fyddai'n coroni'r cwbl fyddai cefnogaeth y cyhoedd a'u hymateb positif i'r sioe. Felly, dewch i gefnogi a gallaf eich sicrhau y bydd nosweithiau o adloniant pur yn eich disgwyl!!

### *Sandy – Elin Mai*

**1.Pa gymeriad wyt ti'n ei chwarae?**
Sandy

**2.Sut gymeriad ydy o/hi?**
Mae hi ychydig yn ddiniwed, yn annwyl ac yn swil a di-hyder ar ddechrau'r sioe, ond mae trawsffurfiad erbyn y diwedd.

**3.Wyt ti'n debyg i'r cymeriad yma mewn unrhyw ffordd?**
Nac ydw! Mae gen i ddigon o geg – dydw i ddim yn enwog am fod yn swil!

**4.Wyt ti wedi selio dy gymeriad ar rywun penodol?**
Mae'n anochel fod y cymeriad wedi'i selio ar gymeriad Olivia Newton John yn y ffilm.

**5.Sut wyt ti'n teimlo am y sioe?**
Rwyf yn hynod o hapus ac yn edrych ymlaen yn arw.

**6.Beth wyt ti'n bryderus yn ei gylch?**
Dim – mae gen i ffydd ym mhob peth a phob un ohonom!!

**7.Beth yw'r peth gorau am wneud sioe fel hyn?**
Cael cyfle i fod yn rhan o rywbeth pwysig yn Ysgol Brynrefail

**8.Beth yw dy hoff olygfa?**
Mae'n amhosib i mi ddewis – mae pob un y dda!!

**9.Beth yw dy hoff gân?**
Eto – mae pob un yn ffefryn!!

**10.Pam ddylai'r cyhoedd ddod i weld y sioe?**
Oherwydd hon fydd y sioe orau yn hanes Ysgol Brynrefail!!!

## Colli Awdur

Roedd colli Eirug Wyn yn dristwch i nifer helaeth o bobl, ac roedd hyn yr un mor wir am ddisgyblion yr ysgol. Gyda chryn deimlad felly fe aeth nifer ohonynt ati i ddatgan eu barn am golli awdur gwirioneddol werth ei halen.

Fel arfer, rydw i'n casau darllen, ond pan welais i hanes Wayne a Dingo yn *United* a *Powdwr Rhech* mi wnes i newid fy meddwl. Rwy'n cofio meddwl fod yr hogiau direidus yma'n debyg iawn i lawer o'm ffrindiau i – yn enwedig efo'r holl bethau drwg mae'n nhw'n ei wneud! Y rhan orau gen i oedd pan wnaethon nhw sticio tysan yn egsôst un o'r athrawon, ond faswn i byth yn gwneud y fath beth! Mae'n drist meddwl na fydd mwy o lyfrau fel hyn eto.

*David Alwyn Williams – Blwyddyn 10*

* * *

Mi wnaethon ni ddarllen *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* a'r peth cyntaf wnaethon ni sylwi oedd fod Eirug Wyn yn hoffi ysgrifennu pethau gwahanol. Roedd ganddo'r gallu i greu llun yn y meddwl – weithiau'n ddoniol, weithiau'n drist. Roedd o'n amlwg yn arbenigwr ar greu cymeriadau gwreiddiol ac yn awdur dawnus dros ben. Tybed pwy all lenwi ei esgidiau?

*Guto Llywelyn a Chris Roberts – Blwyddyn 11*

* * *

Cefais wefr wrth ddarllen nofelau gwreiddiol megis *Bitsh*, *Tri Mochyn Bach* a *Blodyn Tatws*. Roedd rhywbeth yn ffres a gwahanol am waith Eirug Wyn – fe lwyddodd hyd yn oed i ysbrydoli yn oriau tywyllaf ysgrifennu traethodau lefel 'A'! Fe fûm yn ddigon ffodus i gydweithio gydag Eirug Wyn ar gyfer sioe gerdd ganmlwyddiant yr ysgol – *Babi Bach y Wern*. Roedd yn ŵr hynaws, yn athrylith, ac yn Gymro i'r carn. Bydd bwlch enfawr ar ei ôl.

*Heledd Jones – Blwyddyn 13*

## Pêl-droed Merched bl 7+8



*Tîm Pêl-droed Genethod Bl 7 ac 8, 2004.*

**Brynrefail 2 v Dyffryn Nantlle 0**

Hanner cyntaf caled iawn gyda Brynrefs o dan bwysau trwm ond yn dal i ymosod a chael gwobr o *own goal* gan Ddyffryn Nantlle.

Yn yr ail hanner, y bêl yn mynd o un pen i'r llall a'r amddiffynwyr yn gwneud gwaith ardderchog. Yna gôl arall i Brynrefs pan ergydiodd Heledd i gefn y rhwyd o gic gornel ardderchog.

* * *

**Brynrefail v Ysgol David Hughes 0**

Gêm gyffrous gyda'r gwrthwynebwyr yn brwydro'n galed, ond doedd dim posib iddynt fynd heibio amddiffyn Brynrefs.

Emma Williams sgoriodd gyntaf gyda ergyd nerthol: 1–0

Yn yr ail hanner cafodd y gwrthwynebwyr fwy o gynigion ond roedd Brynrefs yn eu rhwystro rhag cael gormod o'r bêl. Yna cipiodd Olivia Taylor y bêl ac i ffwrdd â hi i lawr y cae ac ergydiodd i gornel dde'r rhwyd a sgorio gôl benigamp.

**Ardderchog genod, mae'n amlwg eich bod am efelychu'r bechgyn. Daliwch ati.**


**Dylan Griffith**

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL**

**TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

**Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833**

**Symudol: 07778 127394**

**HEFYD**

**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**



**Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce***
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

# DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

NOSON BINGO
i'w gynnal yn
Neuadd Gymuned Penisarwaun
am 6.30 o'r gloch
nos Fawrth, 15 Mehefin.
Lluniaeth ysgafn ar gael
Yr elw at Glwb Drama Rygarug

DIOLCH. Dymuna Euros ac Emily, (Rhes Faenol), ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y cardiau a'r arian a gawsant ar achlysur eu dyweddïo.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Iwan (hefyd o Rhes Faenol gynt) a band pres YBS ar ennill Pencampwriaeth Ewrop unwaith eto!

CYMDEITHAS UNDEBOL Y CHWIORYDD. Dydd Iau, 6 Mai, cawsom y pleser o groesawu Evan Wyn Evans, Deganwy, atom i'r Gymdeithas. Magwyd ef yng Nghefnywaun, ac mae'n parhau i arddel dylanwad y capel a'r Ysgol Sul arno.

Bu'n sôn am dri phregethwr a godwyd i'r Weinidogaeth o Gefnywaun, sef y Parch R.H. Hughes (Robat Henry Tŷ Canol), y Parch J.R. Roberts (John Tan-y-graig) a'r Parch D.R. Pritchard (Dei Tan-y-ffordd).

Mae ganddo gofnodion o bregethau o waith ei dad, y diweddar Richard Evans, a chlywsom un bregeth o eiddo'r Parchedig J.R. Roberts. Mwynhawyd y sgwrs yn fawr gan bawb.

Dechreuwyd gan Miss Beti Williams a rhoddwyd y te gan Mrs Eirian Jones a Mrs Jane Th. Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10 Mehefin.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL. Nos Lun, 10 Mai, cafwyd cyfarfod yn Libanus ar ddechrau'r wythnos arbennig hon. Llywyddwyd gan y Parch John Pritchard a chymerwyd rhan gan aelodau Libanus, Ebeneser, Cefnywaun a Llandinorwig. Bydd casglyddion yn dod o gwmpas yn ystod yr wythnos.

CYMANFA DOSBARTH PADARN. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yn y Capel Coch, Llanberis. Arweinydd y gân oedd Mrs Lowri Prys Roberts-Wiliams. Derbyniodd amryw o blant yr Ysgol Sul wobrau am eu gwaith yn yr Arholiad Llafar, a rhai o'r oedolion hefyd. Y plant a wobrwywyd oedd: Aimee Williams, Alice Williams, Lee Williams, Dylan Roberts, Gerwyn Llwyd, Llŷr Garmon, Tudur Williams, Catrin Elen, Steffan Robin, Catrin Llewelyn, Emma Tong, Non Davies. Cafwyd croeso arbennig yn Capel Coch. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

MERCHED Y WAWR. *Cinio'r Llywydd.* Dydd Sadwrn, 24 Ebrill, aeth nifer ohonom o'r gangen i Neuadd Kinmel, ger Abergele, i ginio'r Llywydd. Mwynhawyd cinio hyfryd, a chafwyd sgwrs gan y gŵr gwadd, Mr Gareth Jones (y cyn Aelod Cynulliad) a chyfarchion gan Gwyneth Morus Jones. Cawsom ein difyrru gan Shân Parri a'i chriw o Gwyddelwern.

*Gŵyl Wanwyn.* Dydd Sadwrn, 8 Mai, cynhaliwyd Gŵyl Wanwyn Merched y Wawr yn Ysgol Friars, Bangor. Cafwyd sgyrsiau a pherfformiadau difyr iawn, a braf oedd cyfarfod â chyfeillion o rannau eraill o Wynedd. Diwrnod da iawn.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd swper ar ddiwedd y tymor yn Plas Tirion, Llanrug, lle cawsom groeso cynnes gan Mrs Cerid McKinnon, a bwyd hyfryd. Cafwyd gair gan y Llywydd, y Parch John Pritchard, a dewiswyd Ysgrifennydd newydd, sef Mrs Jane Thorman Jones.

ALUN WYN EVANS: 1926–2004

I'w gyd-ddyn rhoes adduned – o lwyfan
O lafur, hyd lludded.
O'r graig, naddwyd ynddo'r gred,
Cymwynas yw cymuned.

STAN AC OLLIE YNG NGHYMRU. Ym mhen pellaf stryd Deiniolen saif adeilad bach digon disylw. Thomas a Jones, gosodwyr gwydrau, sydd yno ar hyn o bryd, ond yng nghanol y ganrif ddiwethaf, pwrpas gwahanol iawn oedd iddo, oherwydd hwn oedd Sinema Hanroy ac, yn 1952, gwelodd y sinema ddau ymwelydd pwysig iawn, sef Stan Laurel ac Oliver Hardy.

Daethai'r ddau drosodd o'r Amerig yn Ionawr 1952 ac, wedi perfformio yn Lloegr, daethant i Rhyl ar 20 Gorffennaf a chawsant groeso mawr yno.

Ar ddydd Gwener, 26 Gorffennaf, daethant i Ddeiniolen, ac eistedd gyda ffyddloniaid yr Hanroy i weld un o'u ffilmiau enwocaf *Way Out West.* Buont wedyn yn Abertawe a Chaerdydd, ac roeddynt wrth eu bodd gyda'r cynulleidfaoedd yng Nghymru.

Bu Oliver Hardy farw yn 1957 a Stan Laurel yn 1965. Rhoesant ddifyrrwch i filoedd.






Y tîm i frwydro dros Gymru yn Ewrop yw ymgeiswyr Plaid Cymru: Jill Evans ASE, Jon Blackwood, Eilian Williams, a Gwenllian Lansdown.

Plaid Cymru
The Party of Wales

Etholiad Senedd Ewrop
Dydd Iau, 10 Mehefin 2004

Brwydro'n galed dros Gymru

Ar 10 Mehefin gallwch ddewis cynrychiolwyr Cymru yn Senedd Ewrop.

Mae pob pleidlais dros Blaid Cymru yn rhoi llais cryfach i chi yn Ewrop.

www.plaidcymru.org

Cyhoeddwyd gan Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE. (01286) 672510

ECO'R WYDDFA YN NEINIOLEN. Bydd Mr Meirion Thomas, 11 Tai Caradog yn rhoi'r gorau i'w ddyletswyddau ynglŷn â'r Eco gyda rhifyn mis Gorffennaf eleni. Meirion sydd wedi sicrhau fod yr Eco yn cyrraedd Deiniolen bob mis ers 12 mlynedd, ac ers i ni golli William Orwig, ef hefyd sydd wedi gofalu fod dosbarthwyr Deiniolen a Dinorwig yn derbyn yr Eco i'w rannu.

Diolch yn fawr iddo am ei gymwynas i'r ardal am gynifer o flynyddoedd.

Apeliwn am wirfoddolwyr i gario'r gwaith ymlaen, gan ddechrau gyda rhifyn mis Medi, a ddaw o'r wasg ddiwedd Awst. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Meirion (870056), os gwelwch yn dda.

Dymunwn ddiolch hefyd i holl ddosbarthwyr yr Eco yn yr ardal ac i'r rhai fydd yn dod i blygu rhifyn mis Mai bob blwyddyn.

DYMUNA Beryl a meibion y diweddar Owain Wyn Griffith, Castell, Pentir ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thaid oedd mor annwyl ganddynt.

Diolch am yr holl ymweliadau, galwadau ffôn, llythyrau a chardiau lu, ac am ffrindiau ffyddlon.

Diolch i Eleri Morgan a staff Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal caredig; i'r Parch Ann Smitham am arwain y gwasanaeth yn Eglwys Deiniol Sant, Llanddeiniolen; i Dafydd Morris, Cefn Coch am dalu teyrnged ac i'r organydd, Mr Basil Thomas.

Diolch o galon am y rhoddion hael a dderbyniwyd at Ymchwil Cancr ac i Dylan Griffith, Tros-y-waen am drefnu mor drylwyr.

**Teyrnged Goffa
Owain Wyn Griffith, Fferm y Castell, Pentir a hunodd ar 16 Ebrill 2004 yn 74 mlwydd oed.**

Yn gyntaf oll, carwn ddiolch o galon i Mrs Griffith a'r hogia am y cyfle a'r fraint fawr i dalu teyrnged goffa i'm cyn-gymydog gwerthfawr, a'm cyfaill mynwesol. Byddai y mwyafrif o gyfeillion Owain, fel minnau, yn cyfeirio ato fel Now Castell, ac felly y cyfeiriaf ato heddiw.

Sut berson oedd Now Castell?

Roedd Now yn ddyn craff, gwybodus, medrus a deallus. Roedd yn hoff iawn o ddarllen, yn gwerthfawrogi barddoniaeth a cherddoriaeth, ac yn deall gwleidyddiaeth yn dda. Er mai ffermwr oedd Now wrth ei alwedigaeth, fe allai yn hawdd, yn fy marn i, fod wedi dilyn llawer math o wahanol yrfaoedd, ar wahân i ffermio. Er hynny, roedd y pridd a'r peiriannau yn agos iawn at galon Now Castell.

Mewn angladdau fel hyn, rydym wedi clywed lawer gwaith rai yn cyfeirio at ddyn neu ddynes eu milltir sgwâr. Yn wir roedd Now yn enghraifft berffaith o'r disgrifiad hwnnw.

Byddai yna lawer o bobl yn galw yn Castell yn achlysurol, rhai yn prynu neu werthu, eraill eisiau cymwynas, gwybodaeth neu gyngor, ond byddai llawer yn ymweld â Chastell er mwyn cael cysur, cwmni neu i dynnu ar Now, er mwyn clywed ei ddywediadau ffraeth a'i hiwmor iach. Fe allech fentro y byddai eich ymweliad yn un groesawus a diddorol, a byddai Now a'i wraig o fewn y filltir sgwâr bron bob amser.

Teulu Now oedd ei drysor, a'i drysor oedd holl bwrpas ei fywyd.

Cafodd Now a Mrs Griffith eu breintio'n hael gyda phedwar o feibion golygus a pharchus, rhai ohonynt wedi priodi ac yn rhiaint eu hunain erbyn hyn.

Byddai Now yn gwerthfawrogi ei gyfeillion a'i gymdogion yn fawr iawn. Ond os byddai i gymydog gamfyhafio, byddai'n colli ei statws fel cymydog ac yn dod yn ddyn drws nesa, ond am gyfnod byr yn unig.

Roedd Now yn uchel iawn ei barch am ei gymwynasau lu. Os y byddai peiriant yn digwydd torri yng nghanol prysurdeb gwaith, byddai ymweliad Now yn datrys y cyfan.

Bydd llawer yn ei gofio
Fel cymwynaswr hael,
Yn hoff o atgyweirio
Peiriannau wedi'r draul.

Hen gyfaill, o dy Gastell
I'r gawell yn y Llan,
Er crwydro tir anghysbell,
Cei orffwys yn y man.

Cawn ninnau, er ein trallod,
Dy gofio'n felys iawn,
Fel gŵr a thad mor hynod,
Yn meithrin dysg a dawn.

Dafydd Cefn Coch

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN. Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa uchod.

Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn a chyfeiriad yr archwilydd. Ceisiadau i'w hanfon i

Miss Jean P. Jones, Ysgrifennydd Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen, Cesail y Mynydd, Deiniolen, Gwynedd LL55 3NF.

Dyddiad cau: 30 Mehefin 2004.

SUL Y BEIBLAU. Cynhelir Gwasanaeth Sul y Beiblau, bnawn Sul, 27 Mehefin am 5.30 o'r gloch yn Eglwys Santes Helen. Gwneir casgliad at y Gymdeithas. Llywyddir gan y Ficer Ann Smitham a Huw Tegid. Bydd bws yn cychwyn o Ddinorwig am 5.00 a chodi trigolion Deiniolen a Chlwt y bont. Croeso cynnes i bawb.


Am Offer Tŷ a Gardd...
FORMAG
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501


## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

NOSON BINGO
i'w gynnal yn
Neuadd Gymuned Penisarwaun
am 6.30 o'r gloch
nos Fawrth, 15 Mehefin.
Lluniaeth ysgafn ar gael
Yr elw at Glwb Drama Rygarug

DIOLCH. Dymuna Mrs Inigo Jones, Eilionwy, ddiolch i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ddiweddar ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 99 oed.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug o Ferched y Wawr yn y Ganolfan Gymunedol ar nos Fawrth, 20 Ebrill. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Meirwen, y llywydd.

Bydd y wibdaith ym mis Mehefin yn cynnwys pryd o fwyd ym Mhenrhos, Caeathro a dosbarthwyd y fwydlen. Penderfynwyd fod y gangen yn prynu'r fideo 'Cyn Torri'r Wawr'. Pleidleisiwyd ar yr enwebiadau ar gyfer Is-lywydd Cenedlaethol y mudiad. Cyhoeddodd Beryl ei bod wedi casglu £120 trwy gymryd rhan yn y distawrwydd noddedig.

Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ar 8 Mai yn Ysgol Friars; y Cyfarfod Blynyddol a'r Ŵyl Haf ar 15 Mai ym Machynlleth; y Penwythnos Preswyl ar 17–19 Medi yn Llanbedr-pont-steffan; taith gan yr Is-bwyllgor Celf a Chrefft i'r NEC, Birmingham ar 13 Tachwedd a darllenwyd manylion am gystadleuaeth Sioe Llanelwedd.

Dangoswyd hysbyseb o Nant Gwrtheyrn, ynghyd â llyfryn gwybodaeth, oedd yn dangos amrywiaeth o gyrsiau a gynhelir yn y Ganolfan yn y gwanwyn a'r haf, megis sampleri, gwaith pastel awyr agored, peintio ar sidan, caligraffi, gynghaneddu, ayyb.

Y gwesteion oedd disgyblion Siân Gibson, sef Elin, Ellen, Sara ac Elain Llwyd, gyda Linda Hughes yn cyfeilio ar yr allweddellau a Siân yn ei chynorthwyo. Roeddent wedi paratoi rhaglen amrywiol, gyda datganiadau o sioeau cerdd *Magdalen, Les Miserables, Grease, My Fair Lady, Scarlet Pimpernel, Prima Dona, Er Mwyn Yfory*, cerdd dant – 'Heno', 'Mwyalchen' ac unawdau, 'Os wyt ti'n glaf' a 'Chwyn Mam yng Nghyfraith'. Roeddent i gyd yn berfformiadau caboledig iawn a'r aelodau yn gwerthfawrogi eu bod wedi rhoi eu hamser i ddangos eu doniau. Yn sicr mae gobaith y byddant ar lwyfannau'r West End mewn sioeau cerdd neu yn cerfio gyrfa sylweddol yn y tai opera yn y dyfodol. Diolchodd Meirwen iddynt am eu gwaith ac i Heather a ddaeth, ar ôl diwrnod blinedig yn Llundain, i'w harwain a'u cyflwyno.

Paratowyd y baned gan Helen, Mair a Beryl ac enillwyd y raffl gan Myfanwy. Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Blynyddol, ar 11 Mai.

BABIS NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i David a Rhian Evans, 6 Afon Rhos ar enedigaeth Rebecca Peris, chwaer fach i Sara.

Hefyd i Kevin a Delyth, Rhes Minffordd ar enedigaeth eu merch fach, Beca.

SIOP YN NEWID DWYLO. Dymunwn bob hapusrwydd i Richard a Meirwen Williams, Siop y Spar, ar eu hymddeoliad o redeg y busnes yma am flynyddoedd lawer. Gobeithio y cewch amser i ymlacio ychydig rwan!

Ar yr un pryd cawn groesawu perchennog newydd y siop, sef Jackie Turner. Pob dymuniad da iddi a staff y siop ar y cychwyn fel hyn, a phob llwyddiant yn y busnes.

DIOLCHIADAU. Dymuna David a Rhian Evans, 6 Afon Rhos, ddiolch yn fawr i bawb am bob arwydd o garedigrwydd ar achlysur genedigaeth Rebecca.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Dymuniadau gorau i Mrs Mona Gruffydd, 2 Hafan Elan, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Mrs Margaret Burrows, Bron y Wyddfa, Ffordd Glanmoelyn ac Avril, gwraig a merch Mr Ernest Burrows; Mrs Mary Parry, Wenllys, Stad Gwêl Fynydd a'r teulu, wedi colli ei brawd, o'r Groeslon, yn sydyn iawn.

WEDI BOD YN YR YSBYTY. Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Dr Dan Hughes, Pant Afon a Mr Glyn Jones, Gwenlyn, 22 Tal y Bont, ac


Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

i unrhyw berson arall sydd ddim yn dda. Brysiwch wella.

ARHOLIADAU. Mae cyfnod yr arholiadau wedi cyrraedd eto! Pob lwc i'r plant a'r bobl ifanc sydd yn wynebu wythnosau o bwysau a gwaith caled ac i'r athrawon sydd yn eu hannog ymlaen.

SEFYDLIAD COFFA – CLWB 100. Enillwyr mis Mai:
£20: Mr G. Davies, Bod Awel; £7: Mrs B. Thomas, 54 Nant y Glyn; £5: Mrs B. Roberts, 7 Afon Rhos. Mae angen aelodau newydd, felly, os am ymuno â'r clwb uchod, cysylltwch â'r trefnydd, Mr R.O. Thomas, 54 Nant y Glyn.

PALID CYMRU. Dyma restr o enillwyr Clwb Cant y gangen:
*Mis Rhagfyr 2003:* £10: Geraint Parry, Bro Dawel, Llanrug; £5: Valmai Williams, Aberdesach.
*Mis Ionawr 2004:* £10: Tudur Jones, Caerdydd; £5: Valmai Owen, Llanrug.
*Mis Chwefror:* Gwenda Roberts, Hafle, Llanrug; Gwenda Roberts, Lleifior, Llanrug.
*Mis Mawrth:* Gareth Williams, Y Wenallt, Llanrug; £5: Berwyn Parry Jones, 59 Glanffynnon, Llanrug.
*Mis Ebrill:* Paul Rowlinson, Bethesda; £5: Eurwen Gwyn, Aberystwyth.

DYMUNA y Cyngorydd Charles Wyn Jones ddiolch i bobl Llanrug am y fraint o'u cynrychioli am y pedair blynedd nesaf ar Gyngor Gwynedd. Os oes gennych unrhyw broblem, croeso i chi gysylltu ag ef ar (01286) 676733.

PLAID CYMRU. Arwel Jones Hogia'r Wyddfa oedd y siaradwr yng nghyfarfod Plaid Cymru nos Fercher, 21 Ebrill, yn y Sefydliad Coffa. Ei destun oedd 'Y teithio tu ôl i'r gân'. Cafwyd noson hynod o ddifyr yn gwrando arno yn disgrifio anturiaethau Hogia'r Wyddfa yn crwydro'r byd i ganu, y bobl ddiddorol iddynt eu cyfarfod, a'r troeon trwstan a ddigwyddodd iddynt ar eu teithiau. Diolchodd y Llywydd, Miss Phyllis Ellis, iddo am noson arbennig o ddidorol.

Da oedd clywed bod *Y Ddraig Goch* a'r *Welsh Nation* yn cael eu cyhoeddi unwaith eto. Croeso i bawb sydd â diddordeb archebu copi'n rheolaidd trwy'r Gangen trwy gysylltu â'r ysgrifennydd (674478).

YSGOL GYNRADD
Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-droed y genethod a ymdrechodd mor galed yng Nghystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd yn Aberystwyth ddiwedd Ebrill. Ar derfyn y dydd daethant yn drydydd drwy Gymru.

Dymunwn yn dda i Chloe Roberts a'r ddau barti Dawnsio Gwerin fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ar Ynys Môn yr wythnos nesaf.

Diolch. Dymuna adran Urdd yr ysgol ddiolch am bob cefnogaeth a gawsant i'r noson 'Carioci' ym Mhen Bont. Diolch i Geraint a Wendy am eu croeso i Ben Bont ac am drefnu'r carioci. Bydd yr arian yn gymorth mawr tuag at gostau cludo aelodau'r Urdd i'r gwahanol gystadlaethau.

Tripiau Addysgol. Gan eu bod yn dilyn thema 'Coedwig' aeth disgyblion Bl 1 a 2 ar ymweliad â Chanolfan Gelli Gyffwrdd a threulio amser yn arsylwi ar y coed a byd natur.

Cerdded i lawr i Benmon wnaeth disgyblion Blwyddyn Derbyn er mwyn cael gweld ynys a goleudy a thrafod peryglon y môr, yna yn ôl a ni i ymweld â bad achub Biwmares a chael croeso mawr yno gan y gofalwr.

Llongyfarchiadau. Daeth y newyddion o'r Urdd bod gwaith celf Anna Wyn, Emma a Lowri wedi dod yn ail yn y Genedlaethol a bod gwaith llenyddol Math Emyr, Bl 2 wedi dod yn fuddugol. Llongyfarchiadau mawr ichi.


Ty'n Llan Nant Peris
Cinio dydd Sul a Byrbrydau

Bwydydd Cymreig
Jim ac Anne Cumberton (01286) 870 284
*Croeso cynnes bob amser*




Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch CAR. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych CHWI yn ei yrru, o Audi i Zastava
MOT
website: www.a-v-w.co.uk
Shell HELIX
Car neu Fan Petrol neu Disel Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car
AVW YSTAD CIBYN CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE




Hywel Williams
Aelod Seneddol


Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon
**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad
neu
ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**
neu
e-bost: **williamsgw@parliment.uk**



Gwasanaeth Therapi Massage yn y Gymuned
oddi wrth **THERAPYDD COFRESTREDIG FHT**
APHORIA
*Remedial Therapy*
*Aromatherapy*
**Abigail Pritchard** MICHT, IIHHT
Ffôn: **0798 919 2746**



LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES
**GARTH MAELOG**
**51 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870840**



Jones & Whitehead Cyf.
Contractwyr Trydan
Goleuadau
Argyfwng ac offer Larwm Tân
Gwasanaeth i Gymru Gyfan
Aelod o NICEIC
Contractwyr Trydan Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol
Prif swyddfa
Penrala, Tregarth, Gwynedd
Ffôn: 01248 601257
Ffôn (nos): 01248 600477 a 601011
Ffacs: 01248 601982

# Miss Corona 1951

## gan Y Gwalch

Un tro, pan oeddwn yn byw ymhell bell, roeddwn yn nabod rhyw hogan o'r enw Marjeri, ac roedd ganddi ferch fach o'r enw Heidi. Deallais wedyn fod y fam wedi mwynhau cymaint ar y nofel enwog nes iddi fedyddio'r plentyn felly. Erbyn hynny, roedd delwau a ffasiynau wedi newid, a'r enw wedi mynd yn dipyn o joc; a hen dro oedd hynny. Roedd y ddwy yn byw mewn tyddyn, rhyw led cae neu ddau oddi wrtha' i, yr adeg honno, ac roedd y lôn berthog, droellog a arweiniai at eu cartref yn pasio heibio i'r fferm lle'r oeddwn innau'n trigo mewn carafan yng nghysgod rhyw das wellt anferth. Roedd y fferm yn perthyn i hen fachgen a fu, ar un adeg, yn perthyn i'r Yeomanry, y gwŷr meirch rheiny a oedd yn troi trwyn y Boers mor aml yn rhyfel y Transvaal. Yn ei ddydd, roedd wedi bod yn gleddyfwr gorau'r tair sir, a'i bleser bryd hynny, meddai fo, oedd crogi rhes o lemons ar linynnau ar frigau coed y berllan, a marchogaeth rhyngddynt efo'i gleddyf noeth a'u sgleisio yn eu hanner.

Beth bynnag, roedd o wedi cymryd ata' i, am ei fod o'n ddiblant ei hun efallai, ac yn caniatáu i mi fyw ar ei dir ar yr amod fy mod yn edrych ar ôl ei ardd. Roedd hyn yn fy siwtio yn iawn, achos dyna oedd fy nghrefft ar y pryd,—hynny ydi, bûm yn gwneud y gwaith am ddigon a amser i ddarganfod nad oedd ffortiwn i'w gael ohono.

Beic bach oedd gen i, a rhaw wedi ei rhwymo ar ei ffram. Ar hwn byddwn yn mynd a dod ar hyd y plwyf, yn trin gardd hwn a'r llall.

Wrth gwrs, mae 'na seicoleg ym mhob talu, ac os ewch chi o gwmpas mewn fan newydd sbon a'ch enw ar ei hochr, ac un neu ddau o beiriannau a rhawiau gloywon ynddi, dydi o ddim ots yn y byd a wyddoch y gwahaniaeth rhwng wermod lwyd a bys coch piws: fe gewch ddigon o waith am unrhyw bris a fynnoch. Ond os mai dim ond beic a rhaw sydd gennych gofalwch fod pawb yn deall eich telerau cyn dechrau, neu mae perygl iddynt ddweud wrthych fod ganddyn nhw raw eu hunain, ac mi fydd yn rhaid i chi dalu am ei defnyddio. Mae 'na bobl felly i'w cael, ond mae 'na eraill hefyd, ac roedd 'na dylwyth ohonyn nhw yn byw yn y cyffiniau. Sipsiwn; y Coopers, a oedd wedi dod ar eu hynt flynyddol i weithio ar y tir a hel y cnydau.

Roeddwn wedi bod yn hel pys yn eu plith nhw unwaith, ac wedi cael mynediad at eu tanau fin nos. Mae gen i ryw dynfa at bobl fel yna erioed. Fel ym mhob llwyth, roedd yno genod, ac un ohonyn nhw oedd Sinffi Cooper. Roedd hi tua'r un oed â mi, ac yn fy nilyn ar hyd y lle fel ci hela. Roedd hi'n dalach na sipsi gyffredin, ac yn ferch osgeiddig. Pan fyddai'n sefyll, wedi llwyr ymlacio, roedd yr un fath â cherflun o Hen Roeg. Credais ei bod, yn ddistaw bach, mewn cariad hefo fi a minnau hefo hithau, – pwy fuasai ddim?

Ond doedd wiw inni gario'r peth ymhellach. Byddai hynny'n golygu y câi ei throi o'i llwyth, ac y cawn innau gyllell yn fy 'sennau.

Ond mi rydw i'n cofio fel y darfu iddi fy hudo i Huddington Court un noswaith ar ganol haf. Roedd yna sôn yn y fro fod yr Arglwyddes de Wintour, gwraig un o gymdeithion Guy Fawkes, a oedd yn byw yno unwaith, i'w gweld yn croesi'r lawnt ar drawiad hanner nos mewn mantell laswen laes. Welais i dim byd, ond yr oedd Sinffi yn mynnu nad oedd yr Arglwyddes, efallai, yn dymuno croesi'r lawnt y noson honno.

Unwaith bûm efo haid o sipsiwn yn Ffair Caerwrangon, ac ar ôl iddyn nhw werthu eu ceffylau a darllen ffortiwn y rhai oedd yn credu, a gwneud eu hunain yn bla yn Woolworth drwy fachio pob dim ar y stondinau, dyma nhw'n fy hudo i barlwr cefn yr Hen Ffesant a'm meddwi ar seidr gellyg.

Aethant â mi adra ar waelod car fflat, fel bwndel o foron, a Sinffi yn sefyll efo un droed o boptu i mi, yn gyrru'r farlan fel Buddug yn dŵad adra o'r rhyfel.

Roedden nhw wedi fy ngollwng ar swp o wellt yng nghongol y gadlas i ddadebru, a phan ddois i ataf fy hun, roedd y froets bach fflwr-di-lys honno roeddwn yn ei wisgo i gofio am Mam wedi diflannu. Wel, beth wnewch chi? Chwadal yr hen Yeoman,

'Beth wyt ti'n ddisgwyl wrth ymhel â'r fath bobl?'

Ond potes hollol wahanol oedd Heidi bach a'i mam. Dois i'w nabod yn rhinwedd fy swydd pan ddaeth cnoc ar fy nrws un machlud haul. Roedd hogan â gwallt coch fel dail yr Hydref yn rhaffau o gwmpas ei phen fel seirff Medwsa yn sefyll yno.

'Ydach chi'n gneud gerddi?' meddai hi wrthyf yn union fel yna, fel tasai Duw wedi anghofio dŵad ag un iddi pan oedd yn creu'r bydysawd.

'Mi fuaswn i'n falch tasech chi'n medru dwâd acw at f'un i,' meddai hi wedyn dan edrych ym myw fy llygaid.

'Wel,' meddwn i. 'Rydw i dipyn bach yn brysur, a... fel mae hi'n digwydd bod... y...'

Ond roedd y llygaid yn dal i edrych arnaf. Llygaid neidr oeddent, rhai gwyrdd, a'r rheiny yn barhaol ar ryw hanner cau, fel tasai eu perchennog dest â marw isio mynd i'w gwely, ac yn gwneud i ddyn deimlo'n flinedig ei hun, ar ei waethaf.

'...Ond mi ddof draw i gael golwg arni,' meddwn i dan lyncu fy mhoer.

Aeth fy holl gwsmeriaid, Sinffi Cooper, a'r nofel fawr honno oedd gen i ar hanner ei sgwennu, yn angof.

Beth bynnag, dyma gychwyn i olwg yr ardd ryw gyda'r nos. Roedd hi'n wyllt walia' heblaw am ryw glwt o riwbob wrth dalcen cwt sinc. Dychmygais mai fel hyn roedd Gardd Eden, ryw hanner canrif ar ôl i Adda gael ei hel ohoni. Roedd fy holl enaid yn erbyn ei chynnig hi, ond cefais wahoddiad i'r tŷ, ac yno gwelais yr hogan fach, felynwallt, Heidi. Chwaraeais gêm o didliwincs efo hi a chael gwydraid o win cartra gan ei mam hi, ac ymhen rhyw awr roeddwn wedi newid fy mwriad.

Ar ôl i'r hogan fach fynd i'w gwely, dyma'r ddynes a oedd, gyda llaw, rhyw ddeng mlynedd yn hŷn na mi, yn dechrau gollwng cynnnwys ei basged, fel petasem yn gyfoedion ers dyddiau mebyd.

Roedd hi wedi ei hysgaru, meddai hi, a'i gŵr wedi mynd i na wyddai neb ble. Ei adloniant pennaf, heblaw am hel merched, oedd ei cholbio hi. Roedd ganddo garej ar un adeg a methai hi'n lân â deall pam yr oedd mor brin arnyn nhw.

'Welsoch chi ddyn garej tlawd rhyw dro?' gofynnodd. Bu'n rhaid i mi gyfaddef na wnes i ddim. Beth bynnag, daeth ei phenbleth i ben pan ddarganfu fod ganddo hobi newydd, sef trwsio motos merched unig – am ddim – a'u danfon yn eu holau ar ôl cinio.

'Fyddai o ddim hyd yn oed yn tynnu ei ofyrôls, wyddoch chi,' meddai wedyn, 'ac ar ôl dwad adra fyddai o'n gneud dim ond agor ei geg a chwyno fod ei goesau'n berwino. Yn y diwedd aeth yn gloff.'

'Tewch, da chi,' meddwn innau, o ddiffyg dim arall i'w ddweud. Rhaid i chi gofio nad oeddwn, yr adeg honno, ond wedi darllen am y fath bethau a'r fath ferched yn y papurau dydd Sul, ond dyna lle roeddwn i, wyneb yn wyneb â sefyllfa debyg. Ni allwn ond sbio arni 'run fath â dyn o Lanbabo wedi gweld jiraff am y tro cyntaf. Ond adferais fy lleferydd yn y diwedd.

'Dydi'r profiad ddim wedi amharu ar eich pryd a'ch gwedd, beth bynnag,' meddwn i. Gwenodd.

'Roeddwn i'n Miss Corona ym mil naw pump un, wyddoch chi,' a dyma hi i ryw drôr a thynnu allan domen o luniau, a dechrau egluro'n fanwl y llwybr y bu'n rhaid iddi ei droedio i gyrraedd y sefyllfa anrhydeddus honno.

*(I'w pharhau)*


MANTELL GWYNEDD

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:

- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626
neu 01341 422575
ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com

Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271



**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**

**YSWIRIO EICH TŶ**
(i arbed colled i chi);
**YSWIRIO EICH CAR**
(i arbed colled i chi ); neu
**YSWIRIO EICH BYWYD**
( i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**
**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**

**CDH**

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
**Ffôn: (01248) 355055**




I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr**
**PORTHAETHWY**
Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

BBQ MAWR
7.30 – 12.30 o'r gloch
nos Sadwrn, 3 Gorffennaf
Fferm Glanrafon
(A4085 rhwng Caeathro a Waunfawr)
Dylan a Neil yn canu
Bar trwyddedig
Raffl fawr
BBQ o ansawdd
I gyd o dan do, rhag ofn!
Croeso i bawb
Yr elw tuag at Ganolfan Caeathro
Ticedi ar gael ar y noson, neu ymlaen llaw gan aelodau Pwyllgor y Ganolfan, Caeathro

CROESO. Llongyfarchiadau i Meinir a Jason Jones, Erw Wen, ar enedigaeth merch, Megan, chwaer bach i Tomos.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn y Ganolfan, Waunfawr ar nos Fawrth, 11 Mai. Roedd y Cynghorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol.

Unwaith eto doedd dim cynnydd efo'r holl faterion sy'n gyfrifoldeb i Gyngor Gwynedd, gan gynnwys arafu traffig heibio Tai Glangwna a chreu llwybr i Gaernarfon. Fodd bynnag mae Rheolwr Cynnal a Chadw Tai wedi addo archwiliad o'r lôn a'r ffensys y tu ôl i Stad Bryn y Gof.

Bydd Arolygydd Cynllunio yn gwrando ar apêl Stad Glangwna i godi 2 dŷ o dan y cae pêl-droed ym Mhenrallt, Caernarfon ar 2 Mehefin. Bydd y Cyngor yn gofyn i Gyngor Gwynedd am 2 fin ar gyfer baw cŵn. Gofynnir i bawb sydd efo diddordeb, gysylltu â BT er mwyn pwyso am gysylltiad 'band llydan' i'r pentref – heb oblygiadau talu cysylltu wedyn!

Mae'r peiriant sgubo'r ffordd yn methu codi'r holl ganiau a photeli ar ochr y ffordd a bydd angen i unigolyn eu codi'n gyson. Hefyd mae cyflwr blêr y tarmac y tu hwnt i'r sedd yn denu tipio slei. Mae angen cyfyngu'r cilfan parcio a thirlunio'r tir at y wal.

NOSON LAWEN. Diolch i bawb – y gynulleidfa, y cantorion a'r actorion, y trefnydd, rhoddwyr y raffl a rheolwyr y gegin. Cafwyd elw o £553.00 ar y noson.

PEN-BLWYDD PWYSIG. Llongyfarchiadau i Rhys Roberts, 3 Erw Wen, ar ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Pwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer mis Mai oedd: £40 (102): Llio Jones, Glanrafon Bach; £25 (41): A.R. Simpson, 3 Tai Glangwna; £15 (63): Einir Roberts, 3 Erw Wen; £5 (94): Reg Chambers Jones, Hafod Wen.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y bydd y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mehefin:
6 2.00: Parch Dafydd Hughes
13: 11.00 Ysgol Sul
20: 10.00 Parch Reuben Roberts
11.00 Ysgol Sul
27: 11.00 Ysgol Sul

BBQ. Ar nos Sadwrn, 3 Gorffennaf bydd BBQ o dan do yn Glanrafon (ffordd Waunfawr) i godi arian at gostau'r Ganolfan newydd. Bydd Dylan a Neil yn canu, raffl fawr, bar trwyddedig rhwng 7.30 a 12.30 a BBQ i lenwi'r bol. Ticedi ar y noson neu ymlaen llaw gan aelodau'r Pwyllgor.

TAFARN BRYNGWNA. Ar ôl cyfnod o wasanaethu'r gymuned fel deiliaid tafarn y pentref, bydd Sue ac Alan Griffiths yn gadael y Bryngwna a dychwelyd i fyw yn Nhai Glangwna. Diolch am eich gwasanaeth i'r gymuned.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL. Gellir dychwelyd ffurflenni rhodd i Apêl Caeathro naill ai yn ôl i Clive James, Hafan neu'n uniongyrchol i Swyddfa'r Eisteddfod, Pendeits, Caernarfon.

CLWB MERCHED. Wedi swper Gŵyl Dewi ardderchog yn Penrhos a sgwrs ddifyr iawn gan Rol Williams, Waunfawr, ar 'Galifantio', mae'r clwb yn dal i fynd o nerth i nerth. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 27 Mai yn y Ganolfan pan fydd Miss Nans Rowlands yn rhoi hanes ei thaith i Batagonia. Croeso i aelodau newydd.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

SPAR
Y STORFA
LLANRUG
DAN BERCHNOGAETH NEWYDD
Jackie Turner
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
(Manylion pellach mis nesa')
*Croeso i gwsmeriaid hen a newydd!*

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

NOSON BINGO
i'w gynnal yn
Neuadd Gymuned Penisarwaun
am 6.30 o'r gloch
nos Fawrth, 15 Mehefin.
Lluniaeth ysgafn ar gael
Yr elw at Glwb Drama Rygarug

DYMUNA'R Cynghorydd Pat Larsen ddiolch i bobl Penisarwaun am ei dychwelyd i Gyngor Gwynedd am y pedair blynedd nesaf. Diolch ichi am eich cefnogaeth a phetai problem gennych, cysylltwch â hi ar Llanberis 870533.

YR YSGOL GYNRADD Llongyfarchiadau i Miss Rhian Wyn Roberts, sydd bellach yn Mrs Rhian Wyn White yn dilyn ei phriodas â Mark yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r teulu bach oddi wrth bawb yn yr ysgol.

Croeso i'r ysgol i ddau fachgen o'r newydd, sef Dion a Siôn Maxwell. Cyn ymuno â ni bu'r ddau'n mynychu Ysgol Gwaun Gynfi.

Er mawr ryddhad i blant Bl 6 fe ddaeth ac fe aeth y TASau! Mae pob un wedi gwneud ei orau glas – does neb yn disgwyl mwy – ac yn haeddu llwyddo. Rhaid aros yn awr am y canlyniadau swyddogol, a phob lwc i bob un ohonoch.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch i Mrs Donnelly, mam Claire a Catrin, sydd newydd gymryd rhan mewn Triathlon, ac wrth wneud hynny wedi casglu arian nawdd ar gyfer cronfa'r ysgol. Hyd yn hyn, dyw'r arian i gyd ddim wedi dod i law ond mae'n swm anrhydeddus iawn. Diolch o galon i Mrs Donnelly am ei gwaith caled a'i charedigrwydd tuag atom, a gobeithiwn gynnwys mwy o fanylion am y Triathlon, ynghyd â'r cyfanswm a gasglwyd, yn fuan.

URDD ADRAN BENTREF. Pob dymuniad da i Anest Bryn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn, gyda'i dawnsio gwerin unigol ac hefyd i Anest Eifion, a phob llwyddiant i holl blant Bro'r Eco.

CERDDED ER BUDD ELUSEN CANCR Y FRON. Fe gwblhaodd Eurgain Haf y daith gerdded hirfaith o 26 milltir yn Llundain fore Sul, 16 Mai – o hanner nos hyd saith o'r gloch y bore. Bu'n brofiad bythgofiadwy o gerdded ar noson fwyn yng nghwmni cannoedd o ferched er budd Cancr y Fron. Dymuna Eurgain ddiolch i bawb ohonoch am ei noddi. Y mae'r gronfa yn agored hyd ddiwedd Mehefin. Diolch o galon.

GWELLHAD. Gobeithio fod pawb yn teimlo'n well hefo'r tywydd braf yma. Anfonwn ein cofion am adferiad iechyd buan i Mrs Elen Williams, 2 Bryntirion, wedi ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Ein cofion annwyl hefyd at Mrs Betty Evans, 11 Llys y Gwynt, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ac wedi symud i Ysbyty Eryri. Dal i wella mae Dafydd Ifans ac yn hynod falch o fedru symud yn eithaf rhwydd bellach, ac yn mwynhau mynd allan unwaith yn rhagor.

GENEDIGAETH. Braf yw medru llongyfarch Elizabeth ac Eric Jones, Bryntirion ar ddod yn nain a taid am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Beca Gwyn, i Bethan a Dyfed, sydd wedi ymgartrefu yn Llanfairpwll. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Gwyneth Jones ar ddod yn hen nain. Pob bendith i chwi fel teulu.

DIOLCH. Dymuna Dyfed a Bethan, Eric ac Elizabeth a Mrs Gwyneth Jones ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar enedigaeth Beca Gwyn ar 28 Ebrill.

DYMUNA Dafydd Ifans ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion wedi ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gwerthfawrogir y gyfeillgarwch a'r caredigrwydd yn fawr iawn.

CROESO i Cai, mab bychan a anwyd i Rhian a Mark, 5 Bryntirion – brawd bach i Cerin a Celyth. Pob bendith i chwithau hefyd fel teulu.

LLONGYFERCHIR Urien Deiniol, Bryn Eglwys, ar ennill Ysgoloriaeth i astudio'r Cyfryngau yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

Yr un modd, llongyferchir Heledd, o Lanrug, un a fu'n ddisgybl yn yr Ysgol Gymuned. Mae hithau wedi ennill Ysgoloriaeth i'r un coleg yng Nghaerfyrddin. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

POB LWC. Ydy, mae tywydd yr arholiadau wedi cyrraedd. Dymunir pob llwyddiant i chwi oll yn yr amrywiol arholiadau. Cofier, 'Gorau Arf, Arf Dysg'.

Pob dymuniad da i Sioned Jones, Perthi, sydd newydd gyflawni Cwrs Bydwraig.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid bnawn Sul, 27 Mehefin yng Nghapel Seiloh, Tregarth. Bydd cyfle i'r plant gael canu emynau bywiog, clywed storïau, gwrando ar westai arbennig yn adrodd ei hanes a chael te bach gyda'i gilydd i orffen y Gymanfa.

Yna am 5.30, yn Eglwys Santes Helen, cynhelir Gwasanaeth Sul y Beiblau. Bydd y plant yn cymryd rhan a gwneir casgliad tuag at y Gymdeithas Feiblaidd..

TRIP YR YSGOL SUL. Eleni eto, y mae'r plant wedi pleidleisio'n unfrydol mai i Southport y maent eisiau mynd am drip gan fod rhywbeth at ddant pob oedran yno. Trefnir y trip gan Elizabeth Jones ac Ann Paterson. Y dyddiad yw **3 Gorffennaf.** Pris fydd **£10** i oedolion a **£5** i blant nad ydynt yn aelod o'r Ysgol Sul. Enwau rhag blaen os gwelwch yn dda. Rhif ffôn Elizabeth: 872421, a rhif Ann: 872405.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr yw Elen Lewis, Penpwllcoch; Eric Jones, 17 Bryntirion; Helen Owen, 7 Brynhyfryd.

Bydd llyfrau raffl ar werth yn fuan er budd y Neuadd a'r Ystafell Gymuned. Gofynnir yn garedig am eich cefnogaeth arferol.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU 2005. Fel y mae'n hysbys i bawb ohonoch, cynhelir yr Eisteddfod uchod ar dir stad y Faenol, Bangor yn 2005. Gofynnir i'r pentref hwn gyfrannu'r swm o £2,000. Drwy glychlythyr, gofynnir yn garedig am gyfraniad ariannol – bydd unrhyw swm yn dderbyniol. Gallwch roi eich cyfraniad yn yr amlen a ddaw gyda'r cylchlythyr, a'i roi i aelod o'r Pwyllgor a enwir ar y ffurflen, neu gellir rhoi eich cyfraniad i'r Trysorydd, Leslie Larsen, Llygad yr Haul, ffôn 870533. Gofynnir i'r cyfraniadau ddod i law erbyn 1 Gorffennaf os gwelwch yn dda. Diolch o galon i chwi oll am eich cydweithrediad arferol.

COLLED. Yn frawychus o sydyn, ar fore Sadwrn, 15 Mai, bu farw Gwilym Jones, Cân y Môr, Y Groeslon, ac yntau yn beicio'n hamddenol ar hyd un o'i hoff lecynnau, sef Lôn Eifion. Y mae'r bwlch yn fawr i'w wraig a'i blant a'i wyrion a'i wyresau. Gwelir colli ei natur pryfoclyd a'i ffraethineb, ac yn sicr ei ddoethineb a'i gynghorion. Cydymdeimlir yn ddwys o golli bawd hoff ag Ann Ifans a'r teulu, Mary Parry a'r teulu, Llanrug, a theulu'r diweddar addfwyn frawd hynaf, Ernest, sef Morfudd Jones a'r teulu, Llangefni. Melys atgofion amdano.

CYFARFOD CYHOEDDUS. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yng Nghapel Bosra, nos Lun, 7 Mehefin i drafod dyfodol y Capel. Y mae angen gwelliannau mawr i'r adeilad a gobeithir cael presenoldeb pawb sydd wedi elwa o'r Capel, boed yn aelodau presennol, cyn-aelodau a rhieni, a chyn-aelodau o'r Ysgol Sul Undebol gref sydd wedi ei chynnal yma ers blynyddoedd bellach. Dowch i gefnogi ac i gynnig syniadau dros godi arian.

# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS, MAI 2004

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Cymuned (CC) a gynhaliwyd yn 'Angorfa', Llanberis ar nos Iau y 13eg o Fai, 2004.

PRESENNOL:
Ward Padarn: Emlyn Baylis, Derek Jones, Fred Owen, Helen Sharp, Ken Jones, Carys Morris (Cofnodi)
Ward Peris: Dei Tomos (Cadeirydd)

YMDDIHEURIADAU: Anne Cumberton, Olwen Gwilym, Gavin Allsup

CYFLWYNIAD gan y Dr Dafydd Roberts, Amgueddfa Lechi Cymru: Cafwyd cyflwyniad gan Dr Dafydd Roberts yn amlinellu'r syniad o greu Llwybr Dehongli ar gyfer pentre Llanberis. Amlinellodd yn fras fod llwybrau fel hyn yn boblogaidd ac yn gaffaeliad mawr i ardal – yn werthfawr i drigolion ac ymwelwyr. Roedd sawl ffordd o greu llwybr, ond ar ei symlaf byddai angen taflen yn cynnwys map a disgrifiad byr o'r llwybr ac arwyddbyst ar y ddaear. Gellid defnyddio technegau mwy modern, ac mewn rhai ardaloedd roedd sustemau electronig ar gael i gynorthwyo'r teithiwr.

Roedd cefnogaeth frwd i'r syniad, a sawl cynghorydd yn gweld hyn o fantais yn lleol er mwyn trwytho ieuenctid yr ardal yn hanes a chwedloniaeth y fro.

Y cam cyntaf fydd sefydlu gweithgor i ddatblygu'r syniad, a chafwyd cefnogaeth ac addewid am gymorth gyda'r gwaith hwnnw. Diolchodd y Cadeirydd i Dr Roberts am fynychu'r cyfarfod ac am ei gyflwyniad.

CADARNHAU COFNODION: Cadarnahwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau y 15fed o Ebrill, 2004, fel rhai cywir. Cynnig ac eilio DJ a FO.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

*a) Goriad Gwyrdd Eryri (GGE)*
Canolfan Fysiau. Daeth llythyr yn ôl oddi wrth swyddog y Goriad yn nodi ei fod wedi cyflwyno cynnig y Cyngor ar gyfer y Ganolfan Fysiau i Gonsortiwm Busnes Llanberis, ond nad oedd unfrydedd barn o fewn y grŵp hwnnw ynglŷn â'r enw, 'Dôl y Goeden'. Cafwyd ymateb o siom gan y Cynghorwyr, doedd neb yn deall pam fod angen enw newydd ar gyfer y lle gan mai 'Dôl y Goeden' oedd yr enw a ddefnyddiwyd ers cyn cof. Doedd neb yn ffafrio 'Pont Fictoria' na 'Gorsaf y Castell' fel awgrymiadau posib. Gofynnwyd i'r Cadeirydd drafod y mater gyda'r swyddog, a gofynwyd a oedd diben trafod y mater â'r Consortiwm Busnes. Roedd teimlad cryf hefyd fod GGE a'r Consortiwm yn anwybyddu barn y Cyngor Cymuned, y corff etholedig a gynrychiolai drigolion y pentref.

*b) Mast Radio mm02, Nantperis*
Adroddwyd fod y Cyfarfod Cyhoeddus wedi ei gynnal a bod staff o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a'r cwmni wedi bod yn bresennol. Ychydig o wybodaeth newydd a gyflwynwyd am ddiogelwch neu beryglon y Mast ac ar ddiwedd y cyfarfod roedd yr ardalwyr yn dal yn wrthwynebus i'w godi. Yn dilyn fe drefnwyd deiseb, a gafodd gefnogaeth mwyafrif mawr y trigolion, ac fe'i hanfonwyd hi a llythyr o wrthwynebiad at Bwyllgor Cynllunio APCE. Fe anfonodd y Cadeirydd lythyr arall yn datgan gwrthwynebiad y CC, ac yn galw am archwiliad safle cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach. Adroddwyd i'r Pwyllgor gytuno i hynny, a bod yr aelodau bellach wedi ymweld â'r safle arfaethedig ar gyfer y Mast. Bydd y mater yn cael ystyriaeth pellach yn y Pwyllgor Cynllunio nesaf.

*c) Canolfan Alwadau'r Heddlu*
Derbyniwyd llythyr pellach oddi wrth Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru (HG) yn egluro eu bod yn bwrw 'mlaen â'r bwriad i greu un ganolfan alwadau, yn lle tair, ar gyfer ardal HG. Pwysleisiwyd mai'r nod oedd creu Canolfan Alwadau fodern ac effeithiol a fyddai'n rhoi gwasanaeth effeithiol. Roedd 'na gydnabod y pryderon a godwyd gennym am iaith a swyddi a'r posibilrwydd o brinder gwybodaeth leol, ond cafwyd sicrwydd y byddai buddsoddiad sylweddol ac ymrwymiad i ddefnyddio gweithwyr o ardal eang, a gwasanaeth dwyieithog, yn llwyddo i ddileu'r ofnau maes o law. Derbyniwyd y llythyr a nodwyd y bydd angen cadw golwg ar y gwasanaeth newydd pan fydd wedi dechrau.

*ch) Biniau Baw Cŵn*
Adroddwyd na chafwyd ateb i lythyr at Gyngor Gwynedd (CG) yn gofyn am finiau baw cŵn i'r ardal. Nodwyd fod adroddiadau wedi ymddangos yn y wasg yn sôn am finiau ychwanegol i rai ardaloedd, tra'r oedd Llanberis a'r Nant yn dal i ddisgwyl y biniau cyntaf. Gofynnwyd i'r cadeirydd gysylltu eto â CG.

*d) Adroddiad Grŵp Ieuenctid*
Adroddwyd fod cyfarfod cyhoeddus arall wedi ei gynnal a fod Is-bwyllgor bellach â'r gwaith o symud pethau ymlaen. Mynegodd rhai o'r Cynghorwyr amheuaeth ynglŷn â'r ffordd y trefnwyd y cyfarfod, a sut yr aethpwyd ati i sefydlu'r is-bwyllgor. Roedd 7 o aelodau'r CC yn bresennol (KJ, FO, CM, DP, DJ, HS a DT). Ni chafwyd sôn am gynrychiolaeth y Cyngor yn y papur lleol, er fod rhai unigolion eraill wedi eu henwi. Gresynwyd fod 'na ymosdiad digon personol wedi ei wneud ar KJ ar ddiwedd y cyfarfod ac yntau wedi gwneud cymaint â neb i gadw drysau'r Ganolfan ar agor dros y blynyddoedd.

*dd) Llinellau Melyn*
Holwyd pam nad oedd llinellau melyn dwbwl atal parcio ar waelod Lôn Tŷ Du, roedd hyn yn achosi trafferthion parcio a pherygl. Cytunwyd y dylid cysylltu â CG.

CEISIADAU CYNLLUNIO
a) C04A/0265/15/LL – Dymchwel wal – tir gyferbyn â 8 Ffordd Tŷ Du, Llanberis – dim gwrthwynebiad.
b) NP3/15/171 – Estyniad i gefn 7 Rhes Faenol, Llanberis – dim gwrthwynebiad.
c) NP3/15/22C – Newid defnydd Yr


*Ymunwch â ni yn Penrhos am ddiwrnod i'w gofio!!*

- *Priodasau*
- *Achlysuron Arbennig*
- *Partion Plant*
- *Cyfarfodydd*
- *Gwely a Brecwast*
- *Lleoliadau Ffilmio*
- *Te Angladdau*


*Penrhos, Caeathro, Caernarfon*

(01286) 676667

*Y Lleoliad Perffaith ar gyfer unrhyw Achlysur*



CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

**CEIR CYMRU**

**Bethel (01248) 670451**

**(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)**

**Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.**

**'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**



*Pryd i Bawb*

*Bwffe blasus o safon at bob achlysur*

- *Priodas*
- *Parti*
- *Te Angladdau*
- *Cinio Busnes*



**CERID MACKINNON**

*Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY*

**(01286) 673190**


## CRONFA COFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa Uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen a stamp gyda chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

**John H. Hughes**
Tan y Clogwyn
Llanberis
Gwynedd LL55 4LF
Ffôn: **(01286) 871 562**

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain, 2004.
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

Hen Bost, Nantperis i fod yn sefydliad Gwely a Brecwast llawn – dim gwrthwynebiad. (Gofynnwyd a fyddai modd anfon gair i ofyn am arwyddion dwyieithog yno yn y dyfodol.)

ch) C04A/0221/15/LL – Cais am ymestyn adeilad amaethyddol, Hafod Lydan, Llanberis – dim gwrthwynebiad.

d) C04A/0119/15CR – Ail osod ffenestri to – Bryn Eirin (Snowdon View gynt) – dim gwrthwynebiad.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL: Adroddwyd fod y gwaith o drefnu gweithgareddau codi arian yn mynd yn ei flaen. Y digwyddiad cyntaf fydd Cyngerdd gan ddoniau lleol, yn cynnwys plant a phobl ifanc ynghyd â'r ddau gôr lleol, Côr Meibion Dyffryn Peris a Lleisiau Lliwedd. Cynhelir y cyngerdd yn Eglwys Sant Padarn, nos Sul y 6ed o Fehefin am 7.30.

Y FYNWENT: Daeth canmoliaeth i law am gyflwr y Fynwent ar ôl i'r glaswellt gael ei dorri. Cytunwyd y bydd yn cael ei thorri unwaith y mis drwy'r haf. Cysylltwyd â'r ymgymerwr ac mae wedi addo symud y cerrig a'r pridd ar y cyfle cyntaf braf ar ôl tua'r 20fed o Fai. Nodwyd fod un neu ddwy o Gerrig beddau rhydd angen sylw yn fuan. Adroddwyd na fu'n rhaid hela'r twrch, aeth i diroedd brasach ohono ei hun!

GOHEBIAETH:


1) Cytunwyd i gynnig £500 tuag at gost y gefeillio rhwng Llanberis a Morbegno yn yr Eidal yn mis Gorffennaf. Bydd yr arian yn mynd tuag at estyn croeso swyddogol i'r ymwelwyr.
2) Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Comisiwn Ffiniau yn nodi iddo dderbyn llythyr y CC yn gwrthwynebu'r bwriad i newid ffiniau'r Etholaethau Seneddol lleol.
3) Derbyniwyd nifer o geisiadau am arian – fe gedwir y rhain tan ddiwedd y flwyddyn pan bresebir ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
4) Llythyr oddi wrth y Cynulliad yn nodi hawliau Cynghorau Cymuned i gyfrannu at elusennau.
5) Llythyr oddi wrth Gyngor Cymuned Llanddeiniolen (CCLl) parthed hysbyseb uniaith Saesneg gan gwmni EuroDPC am Groesawydd. Roedd copi hefyd o ateb oddi wrth y cwmni'n nodi nad oedd EuroDPC o'r farn fod angen rhywun dwyieithog i'r swydd. Penderfynwyd anfon gair at y cwmni'n gresynu nad oedd ganddo bolisi i hyrwyddo'r Gymraeg, ac i ddiolch i GCLl am eu gohebiaeth a'u sylwgarwch. Cynnig HS, Eilydd FO.
6) Cais oddi wrth PC Pete Willdigg, yr heddwas lleol â gofal cymunedol, yn gofyn am gymorth ariannol tuag at redeg cynllun cadw pobl ifanc oddi ar y stryd. Penderfynwyd cynnig £250, sef hanner yr hyn y gofynnwyd amdano, gan ofyn am fwy o fanylion am y cynllun gwario. Cynnig FO, Eilio KJ.
7) Mewn llythyr oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri dywedwyd nad oedd yr Awdurdod yn awyddus i gynorthwyo'r CC i greu llwybr troed gyda'r ffordd, a fyddai o fantais i bobl leol ac ymwelwyr, i gysylltu pentre Nantperis â'r Bwlch. Mynegwyd siom, a phenderfynwyd mynd i holi am gymorth oddi wrth Gyngor Gwynedd a Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae APCE yn bwriadu, os bydd cyllid yn caniatáu, creu llwybr o gwmpas Yr Wyddfa, gan ddod a rhan ohono i lawr Bwlch Llanberis, ond yr ochr arall i'r afon, na fyddai o fantais o gwbwl i bobl leol na phlant yn mynd i'r ysgol, heb sôn am ymwelwyr sydd â'u bryd ar fynd yn gyflym a diogel o Faes Parcio yr Awdurdod yn y pentref i'r bwlch i ddringo a cherdded. Penderfynwyd na fedrid cytuno i roi'r £2000 a neilltuwyd gan y CC beth amser yn ôl at gynllun y llwybr i hyrwyddo cynllun Llwybr Cylch yr Wyddfa.
8) Mewn llythyr arall dywed APCE ei fod yn bwriadu cario 'mlaen eleni â'r gwaharddiad gwirfoddol ar feicio ar Lwybr Llanberis i gopa'r Wyddfa yn ystod tymor yr haf, rhwng 10 y bore a 5 y prynhawn. Cyflwynwyd ystadegau yn profi mai nifer fechan iawn oedd wedi anwybyddu'r cytundeb gwirfoddol y llynedd. Cytunwyd ar gefnogaeth i flwyddyn arall o gytundeb gwirfoddol.
9) Cafwyd gwybod fod Consortiwm Llanberis yn bwriadu gwneud cais at Cydcoed am arian ar gyfer gwella coedydd glan Llyn Padarn a'r mân lynnoedd ger Y Glyn. Nodwyd hefyd fod diwrnod clirio sbwriel ar y gweill ar gyfer yr 8fed o Fehefin. Roedd amryw yn gobeithio cynorthwyo.
10) Dewiswyd OG a DP i gynrychioli'r CC yng Ngorymdaith Cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol ar Fehefin 26ain yng Nghaernarfon.

SWYDD Y CLERC: Chafwyd dim ymateb pellach, ond derbyniwyd llythyr oddi wrth DT yn cynnig ei hun fel Clerc. Derbyniwyd ei gynnig, a dywedodd yntau y byddai'n tynnu ei enw yn ôl fel ymgeisydd am sedd ar y Cyngor am y tymor nesaf.

UNRHYW FATER ARALL Hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gweithgarwch a'u ffyddlondeb yn ystod oes y Cyngor presennol, gan nodi'n arbennig gyfraniad a gwasanaeth diflino Ken Jones am ddegawdau lawer. Roedd wedi penderfynu ymddeol. Bu ei ymroddiad i'w bentref a'i ardal yn un clodwiw iawn fel cynghorydd a gwirfoddolwr. Elwodd sawl mudiad a chymdeithas ar ei wasanaeth, yn arbennig y Ganolfan Gymdeithasol a'r timau pêl-droed. Eiliwyd y diolch gan DJ, a oedd hefyd am ddiolch i'r Cadeirydd am wneud gwaith clerigol yn absenoldeb Clerc dros y misoedd diwethaf.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr


Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277


Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul
Quality Hotel Llanberis
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291
Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher





Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*. Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

STEPHEN JONES
Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco
(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976
Cwmni Annibynnol Lleol Profiadol

# CHWILOTA
# 'ADNEWYDDU'



**Y llynedd bu rhaglen deledu boblogaidd iawn ar BBC2 – *Restoration* – ble roedd Griff Rhys Jones yn tywys y gwylwyr o amgylch gwahanol adeiladau hanesyddol oedd mewn angen dybryd i'w hadnewyddu. Cafodd hen neuadd Plas Faenol gryn sylw ar y rhaglen o Gymru, ond methiant fu hi i ennill digon o bleidleisiau i'w adnewyddu. Pwll Nofio Fictoraidd o ddinas Manceinion 'enillodd' y gystadleuaeth, a'r arian i gynorthwyo gyda'i adnewyddu.**

Ar ddechrau Mai cafwyd rhagflas o gyfres arall sydd i gychwyn tua diwedd Awst. Does yr un adeilad o fewn cyrraedd hwylus i'r fro hon yn cael sylw y tro hwn (mae'r agosaf, Wyrcws Llanfyllin, gryn bellter oddi wrthym).

Tybed, pe bai rhyw filiwnydd o'r fro yn cynnig yr arian, pa adeilad neu safle o fewn bro'r 'Eco' fyddai'n ennill eich pleidlais chwi i'w adnewyddu? Beth am i ni gysidro rhai ohonynt? Mae croeso i chwi gytuno neu anghytuno, neu hyd yn oed gynnig syniadau eich hunain, gan gofio rhoi rhesymau dilys dros adnewyddu eich dewisiadau!

Rhaid anwybyddu adeiladau megis Castell Dolbadarn, oherwydd mai ail-adeiladu fyddai ei angen yno yn hytrach nac adnewyddu, a rhaid hefyd gofio fod ambell adeilad a fyddai wedi bod yn werth ei adnewyddu, eisoes wedi ein gadael am Sain Ffagan, megis hen ffermdy'r Garreg Fawr o'r Waunfawr.

Pa adeiladau felly sy'n hawlio'u lle yn y rhestr? Beth am gychwyn gyda'r adeiladau 'cyhoeddus'.

Er fod eglwysi hynafol yn aml yn galw allan am eu hatgyweirio a'u hadnewyddu, does yr un o'r pedair eglwys blwyfol o fewn bro'r 'Eco' mewn cyflwr mor echrydus a hynny. A hyd y gwn i, mae gwasanaethau (rheolaidd?) yn parhau i'w cynnal ym Metws Garmon, Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug. Ond mae ymgyrch ar droed i gasglu arian i gynnal a chadw yr eglwys ddiweddarach ym mhentref Llanberis.

A beth am ein capeli? Dymchwelwyd nifer ohonynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwerthwyd eraill a'u troi'n gartrefi neu'n stordai. Mae eraill yn brysur mynd â'u pen iddynt. A rhaid holi a oes unrhyw gapel sy'n parhau ar agor o werth pensaerniol a ddylai gael ei adfer.

Diflannodd rhai o'n hysgolion hefyd. Mae hen ysgol Brynrefail eisoes wedi ei dymchwel, ac y mae nifer eraill o hen ysgolion y fro wedi eu troi'n gartrefi (Llanddeiniolen); yn ganolfannau pentrefol (Dinorwig); yn glinig (Deiniolen) neu'n weithdai (Glanmoelyn, Llanrug). Mae rhai o'r rhain ar eu newydd wedd yn fodd o gadw'r adeiladwaith gwreiddiol, tra mae eraill wedi eu newid tu hwnt i bob adnabyddiaeth bron.

Rhaid i ni felly ystyried adeiladau neu safleoedd sydd mewn perchnogaeth breifat.

Gyda'r bywiogrwydd newydd sydd wedi ei ail-gynnau yn Nantperis, teg gofyn a ellir adnewyddu hen Ffynnon Beris, ei thacluso, a'i defnyddio unwaith eto fel rhan o wahanol weithgareddau'r pentref. A beth am osod hysbysfwrdd gerllaw i nodi peth o'i hanes a'i phwysigrwydd ym mywyd y trigolion – ddoe a heddiw. Oes unrhyw ffynnon arall o fewn y fro sy'n haeddu'r fath sylw?

Gwn fod Cyngor Llanddeiniolen yn edrych ar sefyllfa hen Ffynnon Cegin Arthur ar hyn o bryd. Tybed beth ddaw o'r sylw hwn?

Mae'r Tŷ Du ar Ffordd Clegir yn parhau'n adfail. Bu sôn flynyddoedd yn ôl am ei adfer, pe bai ond i gofio'r ffaith fod cymaint o enwogion lleol a chenedlaethol yn gysylltiedig â'r fangre.

Ar hyd glannau'r Saint o Lanrug am Gaernarfon mae degau o hen felinau. Adferwyd ambell un yn gartref, un arall yn gaffi, ac un arall yn gartref i bysgod (!), ond mae'r lleill yn brysur ddadfeilio, a rhai eisoes yn ddim ond pentwr o gerrig yng nghanol tyfiant gwyllt. Oes gwerth mewn adnewyddu unrhyw un o'r rhain?

Mae rhai o'r waliau mynydd sy'n nodwedd mor draddodiadol o ucheldir y fro yn dadfeilio. Cafwyd ymdrechion gwerthfawr i adfer ac ail-adeiladu rhai ohonynt – y wal uwch Llwyncoed ger y Clegir (y rhoddwyd sylw i garreg arbennig ynddi rai misoedd yn ôl yn y golofn hon), a'r wal ar Gefn Drum uwch Cwm Dwythwch. Ond ar ucheldiroedd eraill y fro, bodlonir ar godi ffens weiran ddiddychymyg (ond effeithiol, mae'n siŵr) yn gyfochrog â gweddillion waliau cerrig.

A dyna'n gadael gyda chartrefi hynafol neu nodweddiadol o'r fro. A oes plasdy yn unrhyw le o fewn y fro sydd angen ei adnewyddu? Beth yw cyflwr y Glasgoed, hen gartref teulu Coed Alun, Caernarfon? Beth sy'n digwydd i Lwyn y Brain wedi i'r sylw i gyd gael ei roi i westy'r Seiont Manor? A beth am yr hen fythynnod traddodiadol sy'n dadfeilio wrth eu degau yn y Clegir, yng nghreigiau'r Bigil ac ar Lôn Garret yn Ninorwig? Ac y mae un nodwedd arall o dai ardal chwarelyddol sy'n prysur ddiflannu – y 'porch' llechi. Mae 'porch' brics wedi ei chwipio â cherrig mân wedi disodli bron y cyfan o'r hen rai traddodiadol a wnaed o lechfaen. Ymhle yn y fro mae rhai o'r hen 'porch' llechen i'w gweld heddiw?

* * *

Pryd clywsoch chi gri torcalonnus y gylfinir ddiwethaf? A faint sydd ers i chwi gael cyfle i wylio campau acrobatig cornchwiglod? Ydi'r titw gynffonhir yn dal i nythu yng Nghoed Nant Efa? A phryd y cododd grugiar dan eich troed wrth i chi groesi mynydd-dir y Cefn Du? Ydi plu'r gweunydd yr un mor gyffredin heddiw? Sawl gwrych sydd wedi ei ddiwreiddio i greu cae hwylusach i'w drin i'r ffarmwr lleol? Mae'r rhain hefyd yn rhan o'n hetifeddiaeth, ac mi wn i ble byddai fy mhleidlais i yn cael ei rhoi...

**Cymanfa'r Annibynwyr yng Nghaernarfon**

Yn ddiweddar deuthum ar draws rhaglen Cymanfa Gerddorol Annibynwyr Sir Gaernarfon, i'w chynnal yn y Pafiliwn, Caernarfon ar 15fed o Fehefin 1914. Yr arweinydd oedd Harry Evans, Lerpwl. Roedd y gymanfa'n cael ei chynnal bob pum mlynedd, a'r Pafiliwn yng Nghaernarfon oedd y lleoliad bob tro. Yno, mae'n debyg, roedd digon o le i ddal pawb a fynnai fynychu'r digwyddiad. Ac mae'n amlwg fod y gymanfa yn ddigwyddiad o bwys i'r Annibynwyr. Am rai misoedd cyn y Gymanfa Fawr ei hun, cynhelid rihyrsals yng ngwahanol ddosbarthiadau'r sir. Roedd tri o'r dosbarthiadau rheini yn cynnwys capeli o fro'r 'Eco'. Yn nosbarth 12 roedd capeli Bethel, Moriah a Siloh, gyda'r rihyrsals yn cael eu cynnal ym Methel. Y cydlynydd oedd Evan G. Williams, Llysafon, Bethel. Dosbarth 13 oedd Cwm y Glo, a gynhwysai gapeli Cwm y Glo, Llanberis, Jerusalem, Llanrug a'r Waunfawr. Yng Nghwm y Glo y cynhelid y rihyrsals, a'r cynullydd oedd T.H.Jones, Rhythallt Terrace, Llanrug. Dosbarth 14 oedd Ebenezer, Maes y Dref a Bozra, gyda'r rihyrsals yn cael eu cynnal yn Ebenezer. Y cynullydd oedd William Hughes, 2 Caradog Place, Ebenezer.

O fewn y rhaglen roedd amserlen trenau wedi ei gosod i hwyluso taith pawb i Gaernarfon o wahanol rannau o'r sir! Yn wir, roedd trenau arbennig wedi eu trefnu i gario'r ffyddloniaid i'r Gymanfa. Roedd un o'r rheini yn cario trigolion y fro. Cychwynnai'r trên o Lanberis am 8.20 y bore, gan alw yng Nghwm y Glo am 8.25 a Phontrhythallt am 8.30. Swllt oedd pris tocyn dwyffordd o Lanberis, a naw ceiniog o Gwm y Glo a Phontrhythallt. Byddai'r trên yn gadael Caernarfon am hanner awr wedi wyth y nos. Roedd tri chyfarfod i'r Gymanfa – am hanner awr wedi deg y bore, am hanner awr wedi un a hanner awr wedi pump yn y pnawn.

Mae'n ddiddorol hefyd sylwi ar rai o'r hysbysebion o fewn y rhaglen. Roedd un ohonynt gan Gwmni Townshends o Birmingham (yn hysbysebu yn Gymraeg) gyda'r pennawd 'Perygl wrth Fwrdd y Cymun'. Gwneuthurwyr gwydrau cymun unigol oedd y cwmni, ac yn manteisio ar y ffaith fod barn feddygol ar y pryd yn condemnio'r defnydd o rannu un cwpan cymun gyda'r holl gynulleidfa oherwydd y peryglon o wasgaru'r ddarfodedigaeth. Enwir nifer o gapeli yn yr hysbyseb oedd eisoes wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio un cwpan – y mwyafrif ohonynt yn ardal Porthmadog a Phenrhyn-deudraeth. Tybed pa bryd y dechreuodd capeli'r fro hon (oedd yn dioddef yn arw o afiechyd y ddarfodedigaeth) ddechrau defnyddio cwpannau cymun unigol?

**Cymry America**

Gyda diolch i Arvon Roberts, Pwllheli am ei sylwadau ynglŷn â'r cais am wybodaeth am ferch i'r gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Nyffryn Nantlle. Cafwyd gwybodaeth fywgraffyddol am y Parch Evan Roberts ei hun, ond aeth y trywydd yn hollol oer wrth chwilio hanes ei ferch yn America.

Daeth cais arall hefyd o Galiffornia yn holi am Kitty neu Katherine Evans o Lanberis a briododd â Donald Robey Hewitt. Os oes gwybodaeth gan unrhyw un o'r darllenwyr, yna cysylltwch.

**Jeffreys – eglurhad**

Dylid fod wedi egluro yn y rhifyn diwethaf sut y daeth plant Robert Jeffra i ddefnyddio'r cyfenw 'Roberts'. Yr hen draddodiad Cymreig oedd i feibion ddefnyddio enw bedydd eu tad fel eu cyfenw eu hunain. Tua canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuodd yr arferiad hwn gael ei ddisodli gan y patrwm Seisnig, ac achosodd gryn benbleth (a thrafferthion) mewn amryw deulu. Doedd hi ddim yn anarferol i ddau frawd fod yn arddel dau gyfenw hollol wahanol. Pe bai'r tad yn John Williams, gallai'r meibion (Huw a Harri, dyweder) alw eu hunain yn Huw Jones a Harri Williams!

A dyna ddigon am y tro. Ydi, mae'r haf wedi dod – arwydd sicr o hynny yw fod llai ohonoch yn gohebu ynglŷn â'r golofn yn ystod y misoedd hyn! Mae un rhifyn arall cyn y gwyliau. Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn 01286 673515).

## Ras Moel Eilio

Wedi pythefnos o dywydd niwlog, gwawriodd dydd Sadwrn, 15fed o Fai yn heulog a braf. Doedd ryfedd felly i dros gant o redwyr o bob cwr o'r wlad droi am Lanberis a ras boblogaidd crib Moel Eilio. Ond er mai Rob Jebb o glwb Bingley enillodd y ras, roedd y rhedwyr lleol hefyd yn amlwg iawn. Yn wir, cystadleuaeth glos rhwng Alun Vaughan, Llanberis a Rob Jebb fu hi gydol yr wyth milltir a'r tair mil troedfedd o ddringo wrth gyrchu copaon Moel Eilio, y Foel Gron, y Foel Goch a Moel Cynghorion. Wyth eiliad yn unig oedd yn eu gwahanu ar ddiwedd y ras, ond chwe munud ar y blaen i'r rhedwyr nesaf.

Rhedwr lleol arall a wnaeth yn arbennig o dda oedd Gwynfor Owen, Llanberis, bellach yn rhedeg yn y dosbarth dros 50 oed, ond yn dangos i'r gweddill nad yw ei goesau'n heneiddio dim! Gorffennodd y ras yn bumed, mewn amser o awr a deng munud, gan guro pob rhedwr arall dros 40 oed.

Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg bydd Ras Elidir eisoes wedi ei chynnal, rhan o Bencampwriaeth Prydain am eleni, a'r gobaith yw y bydd ambell i redwr lleol yn gwneud ei farc.

Mae'r gynghrair nos Fawrth yn mynd o nerth i nerth, gyda dros hanner cant o redwyr yn troi allan yn rheolaidd i gystadlu. Mae hanner y rasus wedi eu cynnal, ac y mae Dinorwig, Cwm Bychan, Moel y Gest a Moel Eilio i ddod. Penllanw'r gystadleuaeth fydd y wib wyllt i fyny ac i lawr Moel Eilio ddiwedd Mehefin, ond siawns na fydd rhai o'r categoriau wedi eu setlo cyn hynny.

## Da Iawn Ciw!

Daeth yn ddiwedd tymor ar ddwy gêm boblogaidd dan do y gaeaf, sef dartiau a pŵl. Bu'n dymor llwyddiannus yn y ddwy gamp, ac ambell unigolyn yn profi yn sêr yn y gwahanol gynghreiriau. Y potiwrs ar y bwrdd pŵl gaiff y sylw y mis yma.

Erbyn hyn mae timau pŵl ym mhob un o bentrefi'r Eco. Un o'r timau a gyrhaeddodd yr uchelfannau oedd yr 'Heights' o Lanberis. Fel tîm, hwy oedd ar frig ail adran Cynghrair Caernarfon. Yng nghystadleuaeth y cwpan i unigolion, yr enillydd oedd Andrew Williams o'r 'Heights'. Roedd Derek Harper o'r un tîm yn un o dri a rannodd y tlws am y chwaraewr a gollodd leiaf o gemau drwy'r tymor. Yng nghystadleuaeth y parau, Gerwyn Jones a Chris Thomas, hefyd o'r 'Heights' ddaeth i'r brig.

Tîm llwyddiannus arall oedd 'Penbont 'A' o Lanrug. Fel tîm cipiwyd cwpan yr adran gyntaf. Daeth cwpan y dyblau i Aled Roberts a Michael Owen.

Un ferch oedd yn gwenu oedd Diane Roberts o dîm 'Padarn Lake'. Hi oedd enillydd cwpan Bron Menai yn y gwpan unigol, yn curo Ruth Pritchard, 'Gors Bach 'B'. Tlws arall a ddaeth i'r 'Gors' oedd ail yng nghystadleuaeth Cwpan y Capten i Meurig Green. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.



*Carfan Bethel gyda thlysau'r tymor.*



*Y pedwar doeth – Andrew, Trefor, Dylan a Tecs.*



*Andrew yn prynu rownd o'r diwedd.*


**CARPEDI GERAINT OWEN**

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

**E. W. Pritchard**

**CENTRAL GARAGE**

**Llanberis**

**Ffôn: (01286) 870202**

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

Cefnogwch ein hysbysebwyr

**Gosodwr Teils**

Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr

Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar

**01286 830 805**



Ymestyniad Ffôn wedi Torri?

Angen rhai Newydd? os felly


FFONIWCH

**(01286) 650247** neu **(07780) 811617** (symudol)

Eifion Hughes **(7 diwrnod)**

*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*

## CROESAIR MEHEFIN



**3 i lawr ydi 13 i lawr, ac fe ddisgrifir 6 o'r rhai arbennig hyn gan y geiriau nad oes cliwiau iddynt. (Sylwer fod dau air, [1,6] yn yr ateb yn 5 ar draws)**

**Ar draws:**

1. Mae Cadi dda yn wybodus iawn (9)
9. Cwympo'n feddw i geg delw – ond mae'n parhau yn y golwg! (8)
10. Ciliad y llanw ....... (4)
11. ... yma yn y geneufor? (3)
12. Tyb fod pin Owi'n corddi ....... (7)
13. ...... ond o gorddi hufen y daw hwn! (5)
14. Y dolur a ddaw o gael curfa? (3)
15. Heb ei drin na'i goginio (5)
17. Hela mawn car? (5)
18. Un eiddil o gyfandir y mynyddoedd uchel ..... (5)
20. .......yn gadael blas drwg yn y geg? (6)
23. Na, nid hwn, mae'n dri ar ddeg yn llai! (3)
26. Lliw brown (5)
27. Cyfarwyddyd ynglŷn ag ymddygiad yr offeiriad? (5)
29. Y niwed a ddeilliodd o ddarllen y negas dryslyd (5)
31. Copa mynydd Bangor (3)
32. Llabed sydd fel arfer yn cynnwys enw (5)
33. Dyn yn cofleidio doli fratiog er mwyn cael rhywbeth i'w yfed (7)
35. Tlws gwerthfawr (3)
37. Ffon i yrru gwartheg (4)
39. Planhigyn sy'n tyfu ar goed eraill ac iddo aeron gwyn (7)
40. Hwyrach i natur cas y dyn greu castiau? (9)

**I lawr:**

1. Tango, dawns sy'n creu edifeirwch? (5)
2. Un sy'n erfyn am newid dedfryd (7)
4. Astudiaeth o bethau byw (7)
5. Gwahanu (7)
6. Yr hyn a adewir ar ôl ..... (5)
7. ...... gan y ffŵl sy'n troi ei drwyn ar lobsgows! (3)
8. Y byd wedi ei dreiglo (5)
14. Clerigwr sy'n cynorthwyo offeiriad (5)
15. Llostlydan (5)
16. Ebychiad o Arwelfa! (3)
18. Gwlybwr di-liw heb iddo flas na sawr (3)
19. Nid ei merch hi, ond eto o dylwyth Lloyd George! (5)
22. Chwarren sy'n puro'r gwaed (3)
25. Teimlad cynhyrfus (3)
27. Ymadrodd amharchus y Prif Weinidog ar ôl canmol yn ddi-ddiwedd (7)
28. Llyfr cofnodi ...... (7)
29. ...... sy'n haeddu gwobr (7)
30. Ystafelloedd i olchi dillad ynddynt (7)
34. Nenfydu (5)
36. Trydydd person unigol amser presennol modd mynegol bod!!! (3)

Daeth atebion i groesair mis Mai i law erbyn y dyddiad cau gan A.Griffith a Megan Morris, Dinorwig; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Jennie Williams ac M.P.Jones, Clynnog; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; D.B.Williams ac Eluned Jones, Trefor; Ceinwen Williams ac Olwen Jones, Bethel; Olwen Owen, Moreen Lennon, Nan Owen ac A. Hughes, Llanberis; Eirian Roberts a Ceridwen Williams, Llanrug; Jean V. Jones, Rhiwlas; Diane Jones, Clwt y Bont; Nansi Davies, Rhuthun; Pat Owen, Caerfyrddin; Gareth Oliver, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; H.O.Hughes, Pwllheli; N.Hughes, Cwmyglo; E.E.Jones, Rhoshirwaun; Gwen Griffith, Deiniolen ac Alvona Jones, Prestatyn.

Ymdrech A. Hughes, 14, Charlotte St., Llanberis ddaeth allan o'r het, felly £5 a llongyfarchiada' i chi.

Ar ôl cwblhau y croesair, anfonwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Mehefin 20fed




**Silver STAR**

**GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

**DODREFN PERKINS**

**(Safle'r hen Nelson)**

**CAERNARFON**

**Ffôn: (01286) 676 040**

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, lloft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco**

**GORSAF BETROL**

**Esso BERAN**

**DEINIOLEN**

**Ffôn: (01286) 871521**

**Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod**

**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo**
**Cylchgronau • Papurau Newydd**
**Cardiau Penblwydd • Wyau**
**Nwyddau Groser • Melysion**

**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**

**BWS BACH AR LOG**



**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan**

**(01248) 361044**

**D. P. OWENS RHIWLAS**

# CHWARAEON

## Tlws yr Eco (Cynradd) 2004

Ydy, mae'r noson – nage, nosweithiau mawr ar y trothwy. Soniais y flwyddyn ddiwethaf fod y gystadleuaeth yn ymestyn ei hadenydd, ac mae hyn yn wir am eleni. Y gobaith yw y bydd pob pentref yn nalgylch yr Eco yn cael ei gynrychioli. Yn wir, bydd croeso arbennig i un gymuned eleni – am y tro cyntaf, bydd tîm yn cynrychioli Nant Peris, a diolchwn o flaen llaw i'r pentrefwyr sy'n gyfrifol am gefnogi ieuenctid y Nant.

Elfen arall eleni yw'r twf aruthrol yn y timau dan 7 yn y dalgylch. Y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd ambell gêm yn ystod y noson, ond eleni rhoddir noswaith benodol ar gyfer yr oedran yma. Y mae'r twf yma yn sicrhau parhâd i gystadleuaeth Tlws yr Eco ar gyfer y dyfodol.

Ymlaen â chwi felly, reolwyr a hyfforddwyr, i ddewis eich timau ar gyfer y 'nosweithiau mawr'. O flaen llaw cymeraf y cyfle yma i ddiolch i Brifathrawon ysgolion cynradd Llanrug a Bethel, swyddogion clwb pêl-droed iau Bethel, a'r llu hyfforddwyr / rheolwyr / rhieni am eich cefnogaeth parod. Ymlaen â'r cystadlu.

Y dyddiadau pwysig yw:

**Nos Fercher, 30 Mehefin**
Ysgol Gynradd Llanrug
Pêl-droed Bl 3/4
Pêl-rwyd Bl 5/6

**Nos Iau, 1 Gorffennaf**
Clwb Pêl-droed Bethel/Ysgol Bethel
Pêl-droed Bl 5/6
Pêl-rwyd Bl 3/4

**Nos Lun, 12 Gorffennaf**
Ysgol Gynradd Llanrug
Pêl-droed dan 7

Gan fod cynifer o dimau eleni, rwyf wedi rhoddi'r ffurflen gofnodi yn yr Eco. Gofynnir i bob tîm gael pobl gyfrifol i reoli'r timau, ac hefyd fedr pob clwb gael rhywun a allai helpu gyda'r dyfarnu? Y gost fel y llynedd yw £10 y tîm. Os yn talu gyda siec, dylai fod yn daladwy i 'Eco'r Wyddfa', nid i RLJ! Gofynnir i chwi ddychwelyd y ffurlenni erbyn **nos Fercher, 16 Mehefin** i mi yn bersonol.

## TYMOR Y TREBL

*Y Golygydd Chwaraeon yn cymeryd golwg bersonol yn ôl ar dymor hynod Clwb Pêl-droed Bethel.*

Bu'n dymor anhygoel i dîm pêl-droed Bethel. Yn eu trydydd tymor ers ail-ffurfio daeth llwyddiant mawr ar y cae. Y prif gamp oedd cipio pencampwriaeth Cynghrair Arfon, ac felly ymuno â Llanberis, Llanrug a Deiniolen. Roedd yn frwydr glos rhyngddynt a Chaernarfon Boro drwy'r tymor, a'r gêmau rhyngddynt yn safonol, ac yn denu torf dda.

Yn sgil cipio'r bencampwriaeth, bydd Bethel yn esgyn i Gynghrair Gwynedd. Mae cnewyllyn y tîm yn gymharol ieuanc, gyda doniau amlwg, ond bydd rhaid denu ambell chwaraewr i lenwi bwlch ymadawiad rhai o'r 'hen benau' a roddodd wasanaeth gwerthfawr yn meithrin y 'cywion'.

Rhaid llongyfarch y berthynas deuluol o John 'Cefn' Williams fel Rheolwr, Andrew Williams fel is-reolwr gweithgar, a Trefor Foulkes fel Cadeirydd. Mae'r tri yn gymeriadau cadarn ac wedi arwain y clwb mewn ffordd bositif iawn. Yn sicr mae rhywun yn ymwybodol o'r teimlad o 'chwarae i John', a 'gweithio i Midge'. Rwy'n siŵr hefyd y dymunai'r clwb i mi ddiolch i'r llu noddwyr a fu mor hael yn ystod y tymor, ac i'r criw selog sydd wedi cefnogi'r tîm.

Un elfen bwysig arall yw'r rhaglen 'ogleisiol', a greodd ambell i 'how di dw', ond diolch i Huw Morgan am gynhyrchu rhaglen mae cryn edrych ymlaen ati. I Tecs, Pepsi, Alwynne, Iolo (doctor dŵr amhrisiadwy), Dewi a Maldwyn. Yna'r bluen go iawn, sef Meic o gwmni Delwedd am y wefan ragorol. Diolch yn bersonol iddo am ei gyfraniad a'i gymorth parod i golofnau chwaraeon yr Eco drwy'r tymor. Cofiwch ymweld â'r wefan – www.cpbethelfc.co.uk.

Yn anffodus ni ddaeth y Cwpan Iau yn ôl i'r pentref, er fod y garfan ddigon cryf i'w hadennill. Daeth dwy gwpan i'r dreser, a hynny wedi cyfnod ble roedd yn ymddangos fod rhyw hwdw ar gemau cwpanau. Bwriwyd nhw allan o sawl cystadleuaeth y gynghrair.

Y cwpan gyntaf oedd Cwpan AEEU, cwpan werth ei ennill. Cafwyd gêm dda yn Llangefni ble trechwyd Gaerwen o 4–2. Dyma gwpan answyddogol y Gogledd Orllewin gan fod timau cynghreiriau Môn, Arfon a Chonwy yn ymgiprys amdani.

I goroni'r flwyddyn daeth Cwpan Safeflue Gwynedd, wedi gêm cnoi ewinedd yn erbyn Llanystumdwy ar gae anwastad y Vale. 1 – 1 wedi 90 munud; 2 –2 wedi amser ychwanegol; 4 –4 wedi ciciau o'r smotyn. Llanystumdwy yn taro'r trawst a chapten Bethel, Jonathan Newell, yn cymryd y cyfle i arwain o'r blaen a rhwydo: 5 – 4 i Fethel.

Diweddglo cyffrous i dymor anhygoel.

Llwyddiant ar y cae, a phwyllgor gweithgar oddi ar y cae. Ond erys y broblem, sef Y CAE. Yn amlwg, ni all clwb mor uchelgeisiol a Bethel barhau i ddibynnu ar haelioni Ysgol Brynrefail. O reidrwydd dirywio fydd safon y maes, a bydd angen ei amgylchynu ar gyfer rhai gemau.

Y mae gwella safon yn dod a'i gyfrifoldebau a'i ofynion. Daeth yn amser i'r clwb a'r pentref gydddynnu a chael gweledigaeth bendant i greu adnodd teilwng i'r tîm sydd â nod bendant i fod yn rhan o'r gymuned. Gobeithio hefyd y gwelwn wireddu breuddwyd ambell un o lwybr clir, o'r timau dan 7 drwodd i'r tîm oedolion dan ymbarel un tîm pentref.

I gloi a dathlu'r tymor cafwyd noson wobrwyo 'ddistaw' a gwlyb yng Nghlwb Rygbi Caernarfon. Rwy'n siŵr fod y cytgan 'Championi! Championi!' i'w glywed yn ôl ym Methel. Wedi cryn ddyfalu dyfarnwyd y tlysau unigol i'r canlynol:

Tarian Goffa Stan Morgan (Prif Sgoriwr): Gavin Edwards;

Tarian Lesley Morgan (Dewis y Cefnogwyr): Jonathan Newell;

Tarian Goffa Robert Morgan (Chwaraewr Ieuanc): Gavin Roberts;

Cwpan Y Clwb (seren mewn mwyaf o gemau): Huw Owens;

Cwpan y llywydd (Dewis y Rheolwr): Andy Gibson;

Cwpan y Cadeirydd Owain Machno Lloyd;

Tarian Dylan Williams (Dewis y Chwaraewyr): Jonathan Newell.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd, ac i bawb a gyfrannodd at y llwyddiant mewn unrhyw fodd.

Hoi bach nawr, yna'n ôl mis Awst i ail ddechrau chwysu unwaith eto!

(Rhagor ar dudalen 22)



*Eric Wyn Jones yn cyflwyno Tlws Pencampwyr Cynghrair Arfon i Jonathan Newell.*



*Jonathan Newell yn derbyn Cwpan Safeflue Gwynedd gan Dafydd Roberts o'r cwmni.*



*Iolo Morgan a thlws y cynghrair. Doctor Dŵr amhrisiadwy.*



*Carfan a Phwyllgor C.P.D. Bethel 2003–2004.*

### TLWS YR ECO (Cynradd)

Enw'r Tîm: ____________________

Rheolwr: ____________________

Rhif Ffôn Cysylltiol: ____________________

Pêl-droed: dan 7 ☐
Bl. 3/4 ☐
Bl. 5/6 ☐

Pêl-rwyd: Bl. 3/4 ☐
Bl. 5/6 ☐

Tâl Cystadlu: £10 y tîm
Sieciau yn daladwy i 'Eco'r Wyddfa'
Un ffurflen ar gyfer pob tîm
I'w dychwelyd i R.L.J., 5 Y Ddôl, Bethel
erbyn **MEHEFIN 16**